

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Iesu'n Athro Da

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

| | |
|--|---------------------------------------|
| Porthi'r Pum Mil | Iesu'r Meddyg |
| Gideon - yn ymladd dros Dduw | Dafydd: bugail a brenin |
| Y Nadolig | Elias: negesydd Duw |
| Teulu Newydd Ruth | Nadolig: Goleuni'r Byd |
| Moses - Y Dywysoges a'r Baban | Jona: Proffwyd Anfodlon |
| Pasg – Iesu'r Brenin | Iesu'n croesawu pawb |
| Samuel – Duw yn siarad â Samuel | Y Pasg: y daith fawr |
| Pentecost – Newyddion Da lawn | Jeremeia: proffwyd mewn twll |
| Daniel – yn ffau'r Llewod | Paul: yn cyfarfod Iesu |
| Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas | Moses: Y Deg Gorchymyn |
| Dechrau'r byd: Hanes y Creu | Iesu: y Ffrind Gorau |
| Iesu'n dangos ei allu | Solomon: y brenin doeth |
| Joseff yn yr Aifft | Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da |
| Y Nadolig: Rhodd Duw | Nadolig: O'r nef y daeth |
| Iesu: Ffrind mewn angen | Josua: yr arweinydd newydd |
| Moses: Gadael yr Aifft | Iesu'r athro da |
| Y Pasg: trwy lygaid Pedr | Y Pasg: "Gorffennwyd" |
| Abraham: ffrind Duw | Esther: y frenhines ddewr |
| Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys | Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod |
| Y Beibl: Stori Fawr Duw | Dafydd: bardd a brenin (Salmau) |

Iesu'r Athro Da © Cyhoeddiadau'r Gair 2011

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 686 2
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Iesu'r Athro Da

Pe bai rhaid i chwi enwi un llyfr sydd wedi dylanwadu ar eich bywyd yn fwy nag eraill, ar wahân i'r Beibl wrth gwrs, tybed beth fyddai hwnnw? Darllenais lyfr ychydig o flynyddoedd yn ôl a drawsnewidiodd fy mywyd ysbrydol. Teitl y llyfr yw *'Too busy not to pray'* gan weinidog o America o'r enw Bill Hybels. Dwi'n cofio sefyll yn y siop lyfrau Cristnogol yn Llandudno yn syllu ar yr holl lyfrau a gweddïo, 'Arglwydd, gad i mi ddewis rhywbeth da.' Yn sicr, cefais ateb y diwrnod hwnnw wrth i mi estyn am y llyfr bach, clawr meddal, digon di-nod. Fel y gellwch ddyfalu o'r teitl, llyfr am weddi yw hwn. Ar ôl gorffen darllen y llyfr meddyliais ei bod hi'n drueni o'r mwyaf na roddodd neb y llyfr i mi ugain mlynedd yn ôl – er, dwi ddim yn credu bod y llyfr wedi ei ysgrifennu gymaint â hynny'n ôl! Cefais gyngor ac anogaeth a phatrwm ymarferol o'r llyfr bach hwn, pethau nad oeddwn wedi eu cael o'r blaen, a gafaelodd awydd newydd yn fy nghalon i geisio dod i adnabod Duw yn well trwy droi ato mewn gweddi.

Mae rhywbeth tebyg wedi digwydd wrth i mi baratoi'r gyfres hon hefyd - cyfres sy'n ceisio cyflwyno dysgeidiaeth Iesu ei hun am weddi. Yng Ngweddi'r Arglwydd cawn gyngor, anogaeth a phatrwm, gan sy'n rhagori, hyd yn oed ar weinidog adnabyddus o America! Ymateb i gais ei ddisgyblion y mae Iesu wrth gyflwyno'r weddi hon.

Un o'r pethau yr oedd y disgyblion wedi ei sylweddoli am eu ffrind newydd, Iesu, oedd ei awydd i weddiö. Nid yn unig yr oedd yn mynd â hwy i'r synagog i weddiö, yn ôl arfer llawer o Iddewon y cyfnod, ond roedd hefyd yn diflannu ryw ben bob dydd i weddiö'n breifat. Ar sawl achlysur, mae'r disgyblion yn sylweddoli ei fod wedi codi tra'n dywyll i geisio lle tawel i gael sgwrs gyda'i Dad. Ar achlysuron eraill, mae'n siarad yng nghlyw llawer, wrth iddo geisio cymorth Duw ei Dad cyn cyflawni un o'i wyrthiau. Does dim rhyfedd felly eu bod yn gwneud cais un diwrnod, 'Arglwydd, wnei di ein dysgu sut i weddiö.'

Mae Gweddi'r Arglwydd yn ymateb i'r cais hwnnw. Dylem gymryd sylw arbennig o'r weddi hon felly, oherwydd mae'r weddi y mae Iesu'n ei rhoi i'w ddisgyblion yn batrwm i'w gweddïau. Os dymunwn weddiö yn ôl dymuniad Duw ei hun, dylem ystyried y cynnwys yn ofalus, gan geisio cymryd y Weddi hon yn batrwm i'n gweddïau ninnau hefyd.

Wrth i chi astudio'r weddi gyda'r plant, daw hi'n amlwg bod gweddi'n digwydd rhwng dau berson sydd mewn perthynas. Gall y Cristion alw ar Dduw, oherwydd y gwaith y mae Iesu wedi'i gyflawni ar y groes. Heb y groes, does dim posibl i bobl ddod yn rhan o deyrnas Dduw, does dim gobaith am faddeuant. Ar y groes cyflawnodd Iesu ewyllys Duw, a threchodd yr 'un drwg'. Ein gweddi yw y bydd ein plant a'n pobl ifanc yn dod i sylweddoli pa mor anhygoel yw'r cynnig am fywyd newydd y mae Iesu'n ei estyn iddynt. Ac, ar ôl derbyn y cynnig eu hunain, cael profi'r berthynas anhygoel yma'n dyfnhau a chryfhau trwy weddi.

Diolch i Mathew Rees, awdur gwersi'r ieuencid y tro hwn ac i Aled Davies am baratoi'r gwasanaeth teuluol.

Rhestr Adnoddau

Llyfrau gweddi

'Gweddiâu Ar Gyfer Pob Dydd I Blant Bach':
casglwyd gan Delyth Wyn

'Cyn mynd i Gysgu': Delyth Wyn

'Munudau gyda Duw': Linda Lockley

'Helo Dduw': Delyth Wyn

'365 o Weddiâu i Blant': Aled Davies

Iesu'r Athro Da: Beiblau Lliw

'Beibl Bach i Blant', tud. 392

'Beibl Newydd y Plant', tud. 178,179

'Beibl Lliw y Plant', tud. 214

'Y Beibl i Blant mewn 365 o Storiâu',
hanesion tud. 300



Oed Meithrin – 5 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Amcanion:

- ❖ I ystyried sut y bu i Iesu dreulio amser yn siarad gyda Duw ei Dad mewn gweddi;
- ❖ I gyflwyno hanes y disgyblion yn gofyn i Iesu eu dysgu i weddio;
- ❖ I ystyried cynnwys Gweddi'r Arglwydd, a'i defnyddio fel patrwm i weddïau'r plant.



AMSER CHWARAE

1. Cân - 'Fel hyn ... yn y bore'

Trafodwch gyda'r plant y pethau maen nhw'n eu gwneud yn y bore - deffro, gwisgo, cael brecwast, brwsio dannedd. Gadewch i bob plentyn gyfrannu a chynnig symudiad i gyd-fynd â'r cynnig. Yna, gosodwch bob un i gerddoriaeth sy'n adnabyddus i'r plant a'i ganu'n frwdfrydig gyda'r symudiadau, e.e. 'Fel hyn dwi'n bwyta brecwast, brecwast, brecwast, Fel hyn dwi'n bwyta brecwast, yn y bore,' i'r dôn 'Fel hyn rwy'n plannu tatws.'

2. Gêm - Chwarae rôl

Bydd angen amrywiaeth o hetiau neu ddillad sy'n perthyn i wahanol swyddi, e.e. het dyn tân, plismon, ffermwr, cogydd, dillad nyrs, offer doctor.

Gwahoddwch bob plentyn i estyn eitem o'r bag a'i wisgo yn eu tro. Trafodwch pwy fyddai'n debygol o wisgo'r eitem a beth yw swydd y person hwnnw. Yna, gwahoddwch y plant eraill i 'siarad' gyda'r plentyn sydd wedi'i wisgo'n arbennig, ac i holi cwestiwn perthnasol iddo/iddi. Ar ôl i bawb sy'n dymuno cael tro wneud hynny, gofynnwch gwestiynau i'r plant a fydd yn ei gwneud hi'n amlwg ein bod yn siarad gyda phobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol, e.e. at bwy fyddwn ni'n troi am gymorth pan fyddwn yn sâl? Fyddwn ni'n holi'r ffermwr am gymorth? Neu'r dyn tân? Na, dim ond y doctor sy'n gallu ein cynorthwyo pan fyddwn yn sâl.

Gorffennwch drwy sgwrsio am y pethau yr ydym yn debygol o'u dweud wrth aelodau o'n teulu a ffrindiau arbennig, megis, 'Rwy'n dy garu,' 'Ti'n werth y byd,' 'Ti'n arbennig'.

3. Moli Duw gyda chân

O flaen llaw, meddylwch am dasgau syml ar gyfer pob un o'r plant a pharatowch sêr i'w rhoi iddynt am gyflawni'r tasgau. Gofynnwch i'r plant, yn eu tro, i gyflawni un dasg, a rhoi seren iddynt. Wrth roi'r seren mae angen canmol y plentyn am gyflawni'r dasg, gan gofio defnyddio'r gair 'canmol' bob tro, e.e. 'Wel, Wil, dwi eisiau dy ganmol di am wrando'n ofalus arnaf a bod yn barod i'm helpu i godi'r llyfrau oddi ar y llawr.'

Ar ôl i bawb gael cyfle i gyflawni tasg, trafodwch yr adegau y byddant yn derbyn canmoliaeth gan rieni, neu athrawon. Esboniwch y byddwn yn canmol pobl sy'n gwneud rhywbeth da iawn, neu'n ymddwyn mewn ffordd dda iawn.

Os oes gennych offerynnau taro byddai'n braf canu cân o fawl i Dduw gan eu defnyddio - mae'r gân 'Mae'n Duw ni mor fawr' (Caneuon Ffydd 151), yn addas iawn. Esboniwch wrth y plant bod Duw wedi gwneud llawer o bethau da iawn hefyd, ac mae Duw am inni ei ganmol ef, i ddweud wrtho pa mor dda ydyw. Yn y gân hon rydym yn canmol Duw am fod yn gryf, yn fawr, gyda'r gallu i wneud popeth! Os nad yw'r plant yn gyfarwydd â'r gân, cânt 'gyfeilio' tra byddwch chi'n ei chanu!

4. Amser dweud.....

Bydd angen y lluniau o Daflen 1, wedi'u chwyddo a'u lliwio os yn bosibl.

Dangoswch y lluniau i'r plant, un ar y tro, a thrafodwch beth sy'n digwydd ymhob un. Anogwch y plant i rannu profiadau personol tebyg.



AMSER STORI

Mae'r tri hanes yn y gyfres hon yn cael eu hadrodd ym 'Meibl Newydd y Plant'.

1. Iesu'n siarad gyda Duw, ei dad.

Darllenwch yr hanes yn 'Beibl Newydd y Plant' (tudalen 139).

Yna, darllenwch yr hanes eto, gan annog y plant i ddilyn eich esiampyl wrth greu symudiadau perthnasol fel a ganlyn:

'Roedd hi'n gynnar yn y bore pan ddeffrodd Iesu ryw ddydd' (*codi breichiau, ymestyn y corff ac agor ceg*).

'Roedd hi'n dywyll, a'r dydd dal yn gwawrio' (*rwbio'r llygaid wrth edrych o gwmpas yn araf*).

'Ond cododd a gwisgo, beth bynnag' (*meimio gwisgo*).

'Gadawodd Iesu'r tŷ yn dawel, a mynd am dro' (*meimio agor drws a cherdded ar flaenau'r traed o amgylch yr ystafell*).

'Edrychodd am lecyn tawel lle gallai ef a'i dad siarad' (*meimio chwilio am le i eistedd yng nghorneli'r ystafell*).

'Siaradodd Iesu gyda'i dad yn y nefoedd a gwrando ar eiriau Duw' (*rhoi dwylo at ei gilydd ac edrych i fyny*).

'Roedd yn falch ei fod wedi codi mor gynnar i fod gyda'i Dad a gweddïo' (*codi gyda gwên fawr*).

Roedd Iesu am siarad gyda Duw, ei dad, bob dydd. Gyda phwy fyddwn ni'n siarad bob dydd?

Ydyn ni'n siarad gyda Duw bob dydd hefyd? Enw arall am siarad gyda Duw yw 'Gweddïo.' Esboniwch wrth y plant pryd fyddwch chi'n gweddïo, a beth fyddwch yn ei ddweud wrth Dduw.

Anogwch y plant i siarad gyda Duw bob dydd, i gael 'sgwrs' gydag ef am unrhyw beth maent yn ei ddymuno. Mae Duw'n gwrando arnom pan fyddwn yn gweddïo, er nad ydym yn ei weld, fel ag yr oedd yn gwrando ar Iesu'n gweddïo.

2. Gweddïo fel Iesu

Bydd angen copi o Daflen 2, wedi'i liwio'n barod.

Gofynnwch i'r plant i'ch copïo wrth i chi gyflawni ychydig o symudiadau syml, e.e. meimio brwsio gwallt, codi o'r sêd ac eistedd, peswch, clapio.

Eglurwch ein bod yn copïo pobl bob dydd ac fel hyn rydym yn dysgu sut i wneud pethau newydd. Sut mae'r plant wedi dysgu sut i ddefnyddio cylllell a fforc? Sut maen nhw'n dysgu ysgrifennu neu dynnu llun?

Yn ein hanes gwir o'r Beibl heddiw, mae ffrindiau Iesu'n gofyn iddo eu dysgu sut i siarad gyda Duw. Maen nhw wedi gweld Iesu'n siarad gyda Duw, yn gweddïo, ac maen nhw eisïau siarad gyda Duw hefyd - ond nid ydynt yn gwybod sut!

❖ Darllenwch yr hanes ym 'Meibl Newydd y Plant', tudalen 178.

❖ Edrychwch ar Daflen 2 gyda'ch gilydd. Holwch y plant i weld a ydynt yn gallu dyfalu mai tad a phlentyn sydd yn y llun. Beth mae'r



Oed Meithrin – 5 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

AMSER STORI

plant yn ei feddwl y mae'r plentyn yn ei ddweud wrth y tad? Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau eu bod yn gallu siarad gyda Duw fel y maent yn siarad gyda'u tadau.

Does dim angen poeni ynglŷn â siarad gyda'ch mam neu'ch tad, a does dim angen inni boeni am siarad gyda Duw chwaith.

Rydym yn dweud wrth ein mam a dad beth rydym eu hangen – gofynnwch am gynigion gan y plant, e.e. 'dwi angen diod.' Rydym yn cael dweud wrth Dduw hefyd ein bod eu hangen.

Ydy'r plant yn dweud wrth mam a dad pan fyddant yn teimlo'n drist neu'n sâl? Gallwn ddweud hynny wrth Dduw hefyd.

Ydy'r plant yn dweud wrth mam a dad eu bod yn eu caru nhw? Mae Duw am inni ddweud ein bod yn ei garu ef hefyd!

Ydy'r plant yn diolch i mam a dad? Ydyn nhw'n gorfod dweud 'sori' weithiau? Dywedodd Iesu ein bod yn gallu dweud yr union bethau hyn wrth Dduw hefyd, ac mae wrth ei fodd yn gwrandao ar bob un ohonom!

3. Gweddï Iesu

Bydd angen paratoi'r cymorth gweledol ar gyfer y wers hon o flaen llaw, drwy dorri 4 llun allan o Daflen 1 a'u gludo ar ochr bocs sgwâr gwag; byddai bocs sgwâr hancesi papur yn iawn. Hefyd, bydd angen chwaraewr CDiau neu offeryn taro.

Atgoffwch y plant bod ffrindiau Iesu wedi gofyn iddo eu dysgu sut i siarad â Duw – h.y. sut i weddio.

Dangoswch y bocs i'r plant gyda'r llun 'Canmol' yn eu hwynebu. Atgoffwch y plant o ystyr y gair 'CANMOL.' (*Gweler Amser Chwarae 3 am syniadau*). Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau y dylen nhw ganmol Duw wrth siarad gydag ef. Beth fedrwn ni ei ddweud wrth Dduw er mwyn ei ganmol?

Dangoswch y 3 llun arall a threuliwch amser yn trafod gyda'r plant yr hyn fedrwn ni ei ddweud wrth Dduw ym mhob categori. Cofiwch ail-adrodd mai dyma sut y dysgodd Iesu ei ffrindiau sut i siarad gyda Duw.

Ar ôl trafod pob llun, chwaraewch gêm syml gyda'r bocs. Gwahoddwch y plant i ddawnsio i'r gerddoriaeth neu i symud i guriad offeryn. Wrth i'r gerddoriaeth dewi, taflwch y bocs ac aros i weld pa lun sy'n ymddangos ar yr wyneb. Dylai'r plant greu ystum sy'n cyd-fynd â'r gair/llun, ac aros yn hollol lonydd nes i'r gerddoriaeth ail-gychwyn. Gellwch chwifio dwylo yn yr awyr am 'Canmol', ymestyn dwylo ymlaen am 'Plîs', rhoi dwylo at ei gilydd a phlygu pen am 'Sori', un llaw yn gafael yn y llall a'u hysgwyd am 'Diolch'.




Oed Meithrin – 5 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

AMSER CREFFT

1. Cylch Gweddi

Bydd angen 2 gylch o gerdyn ar bob plentyn, tua maint soser, a phin 'split'. O flaen llaw, torrwyd ran o faint chwarter i ffwrdd oddi ar hanner y cylchoedd. Hefyd, bydd angen copiau o'r lluniau o Daflen 3 a sgleiniau ar bob plentyn. Efallai yr hoffech dorri'r rhain hefyd; hyn yn ddibynnol ar allu'r plant a'r amser sydd ar gael.



Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant a thrafodwch beth sy'n digwydd ymhob un, cyn eu cynorthwyo i'w lliwio. Gludwch y lluniau ar un cylch llawn gan ofalu bod y lluniau'n cael eu gosod yn gyfartal wrth ei gilydd. Gosodwch yr ail gylch sydd â'i chwarter wedi ei dorri i ffwrdd ar ben y cyntaf a defnyddio'r pin 'split' i'w dal at ei gilydd.

Yna, bydd modd troi'r cylchoedd fel mai dim ond un llun sy'n ymddangos ar y tro. Gofynnwch i'r plant i ddod o hyd i lun y plentyn yn ei wely a'u holi a ydy'n bosibl siarad gyda Duw tra byddwn yn y gwely? Gwnewch yr un peth gyda'r 3 llun arall, gan annog y plant i roi ymateb cadarnhaol bob tro – gellwch siarad gyda Duw ymhob man ac ar unrhyw adeg o'r dydd.

Gorffennwch drwy addurno'r cylch sydd ar y brig gyda'r sgleiniau a chynorthwyo'r plant i ddarllen pennawd y cylch, sef 'Siarad gyda Duw.'

2. Llun 'Ein Tad'

Bydd angen copi o Daflen 2 ar gerdyn trwchus i bob plentyn. Hefyd, creonau, tyllwr, rhuban, darnau o bapur/defnydd lliwgar, gwllân brown a melyn, a glud.

Rhowch lun i bob plentyn a'u cynorthwyo i ludo darnau o bapur lliwgar ar y tad a'r plentyn. Yna, cânt ludo gwllân fel gwallt iddynt. Atgoffwch y plant fod Iesu wedi dweud wrth ei ffrindiau am siarad gyda Duw fel 'Tad.' Darllenwch deitl y llun, 'Ein Tad,' ac eglurwch mai dyma yw geiriau cyntaf gweddi Iesu. Anogwch y plant i adrodd y cymal ar eich ôl. Rhowch ddarn o ruban ar bob llun ac anogwch y plant i hongian eu lluniau rhywle adref i'w hatgoffa i siarad gyda Duw.

3. Poster dwylo

Bydd angen darn mawr o bapur yn gefndir, darnau llai o bapur er mwyn i bob plentyn greu amlinelliad dwy law, creonau, siswrn a glud. Hefyd, teitl i'r poster wedi'i argraffu'n barod i'w ychwanegu ar y diwedd.

Cynorthwywch y plant i greu amlinelliad o un llaw ac yna'r llall, a'u gwahodd i'w lliwio'n ofalus cyn eu torri allan. Yna, gwahoddwch y plant i ludo'r dwylo ar y papur cefndir. Gadewch le yn y canol ar gyfer teitl i'r poster.

Eisteddych mewn cylch gyda'r plant a gofyn iddynt beth fedrant wneud gyda'u dwylo, e.e. Clicio bysedd, clapio, rhwbio, crafu, chwifio, pwyntio, dwrddio.



AMSER CREFFT

Os nad oes rhywun wedi awgrymu gweddïo, gorffennwch drwy gynnig y syniad hwn, sef ein bod yn defnyddio ein dwylo i'n helpu i weddïo. *Un rheswm sy'n cael ei gynnig am yr arferiad o roi dwylo at ei gilydd i weddïo yw ei fod yn ein cynorthwyo i ymdawelu a chanolbwyntio.*

Cewch chwarae gêm syml i orffen. Gwnewch symudiad gyda'ch dwylo gyda'r plant yn eich copïo. Newidiwch o un symudiad i un arall heb siarad, i weld pa mor sylwgar ydy'r plant. Efallai yr hoffech wahodd un o'r plant i 'arwain' y gêm, gyda'r plant eraill yn ei g/chopïo.

4. Llyfr bach 'Ein Tad.'

Bydd angen y lluniau o Daflen 1 ar bob plentyn, a llyfr bach wedi'i greu o flaen llaw sy'n cynnwys 4 tudalen a chlawr (llyfr sy'n ddigon mawr ar gyfer y lluniau). Cewch greu llyfr hawdd gyda dau ddarn o bapur, maint A4 wedi'u plygu yn eu hanner. Gwnewch ddau dwll ar yr ochr plyg a rhoi darn o ruban drwy'r tyllau a'u clymu i ddal y tudalennau yn eu lle. Hefyd, creonau, sgleiniau, glud 'sgleiniog'.

Rhowch set o luniau i bob plentyn a'u gwahodd i'w lliwio a'u haddurno gyda'r sgleiniau.

Yna, gludwch y lluniau yn y llyfrau gan ddechrau ar y drydedd dudalen.

Ysgrifennwch 'Ein Tad' ar glawr bob llyfr, gan wahodd y plant i ail adrodd y teitl ar eich hôl. Treuliwch amser yn 'darllen' llyfrau'r plant, yn holi ynglŷn â'r lluniau ac yn atgyfnerthu'r syniadau y buoch yn eu trafod am weddïo.



Oed Meithrin – 5 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

AMSER CANU A GWEDDÏO

Gweddïau

1. Defnyddiwch y 'Cylchoedd Gweddi' i arwain eich gweddïau. Edrychwch ar bob llun yn eu tro ac adrodd gweddi fer, yn diolch i Dduw am ei ofal ymhob sefyllfa.

2. Darllenwch 'Weddi'r Arglwydd' o'r 'Beibl Bach i Blant' (tudalen 393) yn araf i'r plant. Esboniwch mai dyma'r weddi a ddysgodd Iesu i'w ffrindiau a bod llawer o bobl yn adrodd yr un weddi heddiw. Anogwch y plant i wrando'n ofalus ac i ddweud 'Amen' yn uchel ar y diwedd.

3. Beth am dreulio amser yn edrych ar lyfrau gweddïau gyda'r plant a'u hannog i ddewis un i'w ddarllen?

Dyma rai llyfrau sydd ar gael o Gyhoeddiadau'r Gair:

'Gweddïau Ar Gyfer Pob Dydd i Blant Bach': casglwyd gan Delyth Wyn

'Cyn mynd i Gysgu': Delyth Wyn

'Munudau gyda Duw': Linda Lockley

'Helo Dduw': Delyth Wyn

'365 o Weddïau i Blant': Aled Davies a Delyth Wyn

Cân

I'r dôn - 'Row, row, row your boat.'

Rwy'n siarad gyda'r Iesu

Bob dydd rwy'n codi llais,

Rwy'n mynd i siarad gyda Duw,

Sy'n gwranddo ar bob cais.

Rhigwm

Wrth ddarllen y pennill canlynol, anogwch y plant i ddilyn eich symudiadau - mae'r symudiadau'n cael eu hawgrymu ymhob llinell.

Cyffwrdd fy mhen
a meddwl am Dduw, ein Tad,
Cyffwrdd fy nghalon,
a dweud fy mod yn dy garu,
Rhoi fy nwylo at ei gilydd,
a gofyn i ti fy nghlywed,
Cyffwrdd fy ngwefusau,
a gofyn am fwyd,
Plygu fy mhen,
i ddweud 'sori' am y pethau sydd o'i le,
Codi fy mhen,
gan wybod dy fod yn maddau,
Agor fy mreichiau,
i ganmol Duw ein Tad.

AMSERLEN

Wythnos 1: Amser Chwarae 1; Amser Stori 1; Crefft 1 neu 2; Gweddi;

Wythnos 2: Amser Chwarae 2; Amser Stori 2; Crefft 2; Rhigwm;

Wythnos 3: Amser Chwarae 3 neu 4: amser Stori 3; Crefft 3 neu 4; Cân.



Taflen 1
Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Gallwn siarad â Duw unrhyw adeg, ac yn unrhyw le.
Dyma beth allwn ei ddweud wrth Dduw.

Canmol


Diolch

Sori

Plîs



Ein Tad




Rydym yn galw Duw yn 'dad' oherwydd fod Duw yn ein caru ac yn gofalu amdanom - yn union fel mam neu dad!



Taflen 3
Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Rwy'n siarad gyda Duw... bob amser, ym mhob man.





6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Amcanion:

- ❖ i gyflwyno 'Gweddi'r Arglwydd' fel rhan o ddysgeidiaeth Iesu ar weddi;
- ❖ i ystyried ystyr prif gymalau'r Weddi;
- ❖ i gynorthwyo'r plant i ddeall sut y gallant ddefnyddio'r Weddi yn bersonol wrth weddio.



Cân i'r gyfres

'Gweddi sydd fel codi ffon' - *Tyrd i Ddathlu*

Adnod i'r Gyfres

"Daliwch ati i ofyn a byddwch yn ei gael; chwiliwch a byddwch yn dod o hyd iddo; curwch ar y drws a bydd yn cael ei agor" - Mathew 7:7

CYFLWYNIAD I'R ATHRO

Un o'r pethau a sylweddolodd y disgyblion ynglŷn â'u ffrind newydd, Iesu, oedd ei awydd i weddio. Nid yn unig yr oedd e'n mynd â nhw i'r synagog i weddio, yn ôl arfer llawer o Iddewon y cyfnod, ond roedd ef hefyd yn diflannu ar ryw adeg bob dydd i weddio'n breifat. Ar sawl achlysur, mae'r disgyblion yn sylweddoli ei fod wedi codi tra'n dywyll, i geisio lle tawel i gael sgwrs gyda'i dad. Ar achlysuron eraill, mae'n siarad yng nghlyw llawer, ac nid yw'n syndod iddynt wneud cais un diwrnod, 'Arglwydd, wnei di ein dysgu sut i weddio.'

Mae 'Gweddi'r Arglwydd' yn ymateb i'r cais hwnnw. Dylem gymryd sylw arbennig o'r Weddi felly, oherwydd mae'r weddi y mae Iesu'n ei rhoi i'w ddisgyblion yn batrwm i'w gweddïau nhw. Ac os dymunwn ninnau weddio yn ôl dymuniad Duw ei hun, dylem ystyried y cynnwys yn ofalus, gan geisio cymryd y Weddi hon yn batrwm i'n gweddïau ninnau hefyd.

Trefn y gyfres

Mae'r gyfres hon wedi'u llunio'n wahanol i'r arfer. Mae'r Weddi wedi cael ei rhannu'n 9 uned, un uned ar gyfer prif gymalau'r weddi. Cewch syniadau am gyflwyniad, cymorth gweledol, stori Feiblaidd, crefft neu gêm neu weddi ar gyfer pob un.

Cewch gyflwyno'r deunydd mewn sawl ffordd. Dyma 3 awgrym:

- ❖ Grwpiau bychain o blant:

Cyflwyno 3 uned o'r weddi bob wythnos gan astudio un uned cyn symud ymlaen i'r ail a'r drydedd.

❖ Grwpiau mwy:

Grwpiau sydd ag o leiaf 3 arweinydd a digon o blant i rannu'n 3 grŵp. Gellir rhannu'r grŵp yn 3, gyda phob grŵp yn astudio un uned yr un, cyn symud ymlaen i'r ail ac i'r drydedd. Bydd angen arweinydd ar gyfer pob uned - a bydd rhaid ei chyflwyno tair gwaith! Bydd hyn yn golygu nad yw pob grŵp yn dilyn trefn y Weddi, ond cewch egluro'r drefn gywir ar ddiwedd y sesiwn.

❖ Dilyn dull 'gorsafoedd'. Mae hyn yn addas iawn ar gyfer grŵp mawr o blant.

Bydd angen gosod pob peth yn barod yr wythnos gyntaf ar gyfer y naw uned. Cewch rannu'r plant yn grwpiau, hyd at naw grŵp. Os oes gennych griw mawr o blant a digon o arweinwyr, cewch osod un arweinydd ar gyfer pob 'gorsaf' sy'n gyfrifol am gyflwyno'r uned honno i bob grŵp yn eu tro. Mae pob grŵp yn astudio un uned am amser penodol a fydd yn dibynnu ar hyd eich Ysgol Sul, cyn symud ymlaen i'r 'orsaf' nesaf. Byddai'n syniad anelu at gyrraedd 3 'gorsaf' bob wythnos.

Mae'n bosibl defnyddio'r syniad hwn gyda grŵp llai a dim ond un arweinydd, ond bydd angen i'r arweinydd hwnnw/honno gyflwyno pob uned.



6 - 11 oed

Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Uned 1: 'Ein Tad, yn y nefoedd'

Cymorth Gweledol ar gyfer yr uned: Llun coeden o Atodiad 1 neu frigyn gweddol fawr mewn potyn, gyda'r geiriau 'Ein Tad' ar y potyn.

Cyflwyniad Coeden Deulu

Cyflwynwch ran o'ch coeden deulu a thrafodwch y berthynas sydd rhwng y gwahanol aelodau. Er enghraifft, rwy'n briod â Meirion. Ein plant yw Catrin, Steffan, Siôn a Hanna. Enwau fy rhieni yw Keith a Lorna. Enwau rhieni fy ngŵr yw Elen a Morris. Yna, gofynnwch pa enwau mae'r aelodau'n eu defnyddio wrth gyfeirio ar ei gilydd? Beth fyddai Catrin yn galw Meirion? Beth fyddai Steffan yn galw Keith? Beth yw'r gwahanol eiriau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y tad?

Esboniwch fod Iesu wedi dysgu ei ffrindiau i alw Duw yn 'dad' fel yr ydym yn defnyddio'r un gair ar gyfer ein tadau naturiol.

Un tro, gofynnodd ffrindiau Iesu iddo eu dysgu i weddio. Roedden nhw wedi sylweddoli bod Iesu'n treulio llawer o amser yn siarad gyda Duw mewn gweddi ac roedden nhw'n awyddus i ddysgu sut i weddio fel eu bod yn gallu siarad gyda Duw hefyd. Heddiw, byddwn yn ystyried dechrau'r Weddi a ddysgodd Iesu i'w ffrindiau. Mae'n dechrau gyda'r geiriau, 'Ein Tad yn y nefoedd.'

Amser Beibl - Hanes y Mab Afradlon (Luc 15:11-32)

Adroddodd Iesu'r ddameg hon i ddangos bod Duw yn 'dad' sy'n barod i faddau ac sy'n llawn cariad.

- ❖ Darllenwch yr hanes o Feibl plant addas;
- ❖ Casglwch yr eitemau canlynol mewn bag a'i ddefnyddio wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun: bag o geiniogau, mochyn (tegan neu lun), modrwy;

❖ Cwestiynau i'w gofyn i'r plant: Pa eiriau fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r tad yn yr hanes? Ydych chi'n cofio adeg pan gawsoch siom/syrpreis, oherwydd na chawsoch y ffrae yr oeddech yn ei disgwyl ar ôl camymddwyn? Pam ddywedodd Iesu'r hanes hwn?

❖ Tynnwch sylw'r plant at y cymorth gweledol, y llun o'r goeden o Atodiad 1 neu'r brigyn mewn potyn. Beth sydd wedi'i ysgrifennu arno? Dysgodd Iesu ei ddisgyblion i ddechrau eu gweddiau gyda'r geiriau hyn. Maen nhw'n cael galw Duw yn 'dad' oherwydd eu bod wedi dod i garu Iesu ac i gredu ynddo. Os ydym yn caru Iesu ac yn credu ynddo, rydym yn dod yn rhan o deulu Duw, ac rydym yn cael galw Duw yn 'dad' hefyd;

❖ Mae gan bob un ohonom rywun neu rywrai sy'n ein caru ac sy'n gofalu amdanom. Sut mae'r bobl yma'n dangos gofal a chariad? *Cofiwch fod yn sensitif i gefndiroedd gwahanol blant o fewn eich grŵp.* Mae Duw yn ein caru ac mae'n gofalu amdanom er nad ydym yn ei weld. Sut mae Duw'n dangos ei gariad a'i ofal?

❖ Mae pobl eraill yn perthyn i deulu Duw hefyd - pobl eraill sy'n caru Iesu. Dyna'r rheswm i ni ddewis coeden ar gyfer y wers hon, i'n hatgoffa ein bod yn perthyn i lawer o bobl eraill sy'n rhan o deulu Duw. Ydy'r plant wedi sylwi ar y gair 'EIN'? Pan fyddaf yn siarad gyda Duw, sydd fel 'tad' i mi, dwi'n cofio am y bobl eraill sy'n perthyn i Dduw hefyd.

Crefft Creu coeden deulu

Bydd angen brigyn mewn potyn gyda'r geiriau 'Ein Tad' ar y potyn, (cewch ddefnyddio'r cymorth gweledol os dymunwch), darnau o gerdyn, pensiliau lliw, tâp selo, cortyn/rhuban. Anogwch y plant i dynnu llun ohonyn nhw eu hunain ar y cerdyn a'i glymu ar un o'r brigau.



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Crys-T

Bydd angen crys-T ar bob plentyn a phinnau ffelt pwrpasol ar gyfer defnydd. Cynorthwywch y plant i feddwl am eiriau a fyddai'n addas i orffen y cwestiwn: "Ti'n credu fy mod"(e.e. i'n cŵl? / i'n ddel? / yn ffantastig? / yn cwtshi? / yn seren?) i'w ysgrifennu ar flaen y crys-T. Ar gefn y crys-T, cânt ysgrifennu'r ateb i'r cwestiwn: "Dwi'n debyg i mam / Dwi'r un sbit â dad".

Gweddi

Gorffennwch trwy dreulio amser yn diolch i Dduw am ein teuluoedd a phobl eraill sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom. Diolchwch hefyd bod Duw'n caru ac yn gofalu amdanom fel Tad.

Uned 2:

'Sancteiddier dy enw'

Cymorth gweledol: o Atodiad 3, Llun croes (neu groes bren) gyda fflamau papur lliw oren, coch a melyn dros y groes.

❖ Cynhaliwch sgwrs gyda'r plant am bethau sy'n cael eu defnyddio adref ar achlysuron arbennig yn unig - efallai oherwydd eu bod yn werthfawr neu'n bwysig. Er enghraifft, mae gennyf set o lestri gwerthfawr sydd ond yn cael eu defnyddio ar ddiwrnod Nadolig, neu ar gyfer prydau arbennig gydag ymwelwyr 'pwysig.' Nod y sgwrs yw sylweddoli bod rhai pethau'n cael eu gosod 'ar wahân' gan eu bod yn werthfawr.

❖ Dangoswch y llun o Atodiad 3 (croes a fflamau) neu'r cymorth gweledol.

Darllenwch yr ail gymal o 'Weddi'r Arglwydd' gyda'r plant, gan esbonio mai dyma'r peth nesaf a ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion am weddi. Ystyr y gair 'Sancteiddio' yw 'rhoi ar wahân.' Byddwn yn gweld heddiw beth ydy ystyr bod enw Duw 'ar wahân.'

Amser Beibl -

Hanes Moses a'r berth yn llosgi (Exodus 3-4)

❖ Darllenwch yr hanes o Feibl Plant addas;

❖ Gofynnwch i'r plant adrodd yr hanes yn ôl i chi yn eu geiriau eu hunain;

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol: Sut oedd Moses yn gwybod ei fod ym mhresenoldeb Duw? Pam ddywedodd Duw wrtho i dynnu ei esgidiau? Pa eiriau eraill fyddwch chi'n eu defnyddio yn lle'r gair 'Sanctaidd'? Beth fydddech chi'n ei feddwl o weld y berth yn llosgi ond nad oedd yn cael ei difa?

❖ Esboniwch fod Iesu am i'w ffrindiau sylweddoli - er bod Duw yn dad iddynt - ei fod yn wahanol iddynt hefyd. Mae Duw ar wahân i bobl oherwydd mae e'n hollol bur, yn hollol dda, yn gwybod popeth, yn gweld popeth, mae ym mhob man, yn holl bwerus. Mae'n rhaid parchu Duw ac enw Duw, oherwydd pwy ydyw.

❖ Edrychwch eto ar y cymorth gweledol. O beth mae'r fflamau'n atgoffa'r plant? *Bod Duw'n sanctaidd.* O beth mae'r groes yn atgoffa'r plant? *Bod Iesu wedi marw ar y groes i faddau ein pechodau. Pan fyddwn yn derbyn maddeuant gan Iesu rydym yn cael dod yn ffrindiau i Dduw er ei fod yn sanctaidd.*

Crefft a Gweddi

Poster Llun Traed

Bydd angen darnau o gerdyn tenau maint A4, pinnau ffelt, darn mawr o gerdyn yn gefndir i'r poster. Rhewch deitl yng nghanol y poster cyn cychwyn - "Sancteiddier dy enw" - efallai yr hoffech ddefnyddio rhaglen ar y cyfrifiadur i greu teitl deniadol a lliwgar.

Gofynnwch i'r plant i dynnu eu hesgidiau (fel gwnaeth Moses!), tynnu llinell o'u hamgylch ar y cerdyn, a'u torri allan. Cynorthwywch bob plentyn i feddwl am ddau air sy'n disgrifio Duw a'u hysgrifennu'n fawr ar y 'traed' cyn lliwio'r traed.



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Ar ôl gorffen, cânt ludo'r siapiau ar y cerdyn cefndir i greu poster mawr. Gwahoddwch bawb i edrych ar draed y plant eraill a defnyddiwch y llun i arwain eich gweddïau. Caiff pawb ddiolch i Dduw, yn eu tro, am un o'r nodweddion a gofnodwyd.

Uned 3:

'Deled dy deyrnas'

Cymorth gweledol Atodiad 2 neu glôb gyda chalonnau bach papur coch wedi'u gludo arno. Mae angen un galon fwy gyda'r geiriau 'Deled dy deyrnas' arni.

Cyflwyniad

Bydd angen coron.

Rhowch y goron i un o'r plant a'i gwahodd i ddychmygu ei bod yn frenin neu frenhines am ddiwrnod. Beth fyddent yn ei wneud? Dweud? Bwyta? I ble fyddent yn mynd? Oes rheolau newydd y byddent yn hoffi eu creu? Ar ôl i bawb gael cyfle i gyfrannu, gofynnwch i'r plant beth sy'n gwneud brenin da? Beth sy'n gwneud brenin drwg?

Dangoswch y cymorth gweledol a darllenwch y teitl, gan esbonio mai Iesu a ddywedodd hyn, sef y dylai ei ddisgyblion ofyn i Dduw amdano wrth weddio. Yn syml iawn, roedd Iesu'n dysgu'r disgyblion i weddio y byddai mwy o bobl yn dod i'w garu a'i dderbyn yn frenin.

Amser Beibl –

'Hanes Sul y Palmwydd'

(Mathew 21: 1-11 a Mathew 13:31-32)

Bydd angen pecyn o hadau a Beibl Plant.

- ❖ Darllenwch hanes Sul y Palmwydd o Feibl plant addas;
- ❖ Gofynnwch pam fod y bobl yn cyfarch Iesu fel hyn? Pwy oedd Dafydd? Beth yw ystyr dweud bod Iesu'n 'Fab Dafydd'?

❖ Eglurwch fod yr Iddewon wedi bod yn disgwyl i Dduw ddanfôn brenin ers blynyddoedd lawer. Roedd Duw wedi addo y byddai'n danfôn brenin i arwain ei bobl - y Meseia. Nawr, roedd llawer o'r bobl yn sylweddoli mai Iesu oedd y Meseia, y brenin a anfonwyd gan Dduw;

❖ Ond, doedd Iesu ddim wedi dod i deyrnasu fel brenin cyffredin. Doedd Iesu ddim yn mynd i ddechrau teyrnasu dros y wlad - roedd am fod yn frenin yng nghalonnau pobl, yn *fos* ar fywydau pawb a fyddai'n gofyn iddo;

❖ Dangoswch y pecyn o hadau a thrafodwch sut mae'r hadau'n tyfu yn blanhigion mawr. Os oes gennych lawer o wahanol hadau, efallai yr hoffech gael cwis trwy ddangos hedyn a gofyn i'r plant i ddyfalu hadau beth ydynt. Byddai'n syniad cael lluniau o'r planhigion i'w paru gyda'r hadau;

❖ Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau fod teyrnas Dduw'n debyg i'r hadau bach. Mae teyrnas Dduw yn mynd i dyfu i fod yn deyrnas fawr iawn!

❖ Edrychwch ar Atodiad 2 neu'r glôb ac eglurwch fod yna bobl trwy'r byd heddiw sy'n perthyn i Iesu - pobl sy'n ei garu ac sydd wedi ei wahodd i fod yn frenin yn eu bywydau;

❖ Gofynnwch i'r plant a oes syniadau ganddynt beth yw ystyr 'Deled dy deyrnas'? Wrth ddweud y geiriau hyn, rydym yn gofyn i Dduw i beri bod mwy o bobl yn gwahodd Iesu i fod yn frenin arnynt. Rydym hefyd yn dweud y byddwn ninnau'n gadael i Iesu fod yn frenin yn ein bywydau ni - yn dweud ein bod am i Iesu ddod yn *fos* arnom, fwy a mwy.

Crefft:

- ❖ Plannu hadau.
- ❖ Creu cardiau gweddïo dros y byd - gweler Atodiad 2 am gyfarwyddiadau.



Uned 4

'Gwneler dy ewyllys'

Cymorth gweledol llun croes a dwy hoelen o Atodiad 3 neu groesbren a 2 hoelen, gyda'r geiriau 'gwneler dy ewyllys' ar ddarn o gerdyn wrth eu hymyl.

Cyflwyniad:

Gêm – 'Dewis y peth cywir'

Bydd angen 3 darn o bapur maint A4, wedi'u marcio gydag 'a, b, c'. Gosodwch y rhain ar y wal o amgylch yr ystafell.

Darllenwch y datganiadau canlynol i'r plant a'u gwahodd i redeg at y llythyren sy'n cyfateb i'w hymateb. Gofynnwch i bawb ddod yn ôl i'r canol ar ôl pob un.

1. Dim ond un darn o gacen siocled bendigedig sydd ar ôl, wyt ti'n: a) Rhoi'n darn i dy frawd/chwaer? b) Ei fwyta'n sydyn cyn i neb sylwi? c) Ei dorri'n ddarnau bach ar gyfer pawb?

2. Rwyf ar y ffordd i'r siop i wario 50c olaf dy arian poced ar fferins. Ti'n pasio dyn sy'n casglu ar gyfer trychineb diweddar mewn gwlad bell. Wyt ti'n: a) Peidio â chymryd sylw a mynd i'r siop? b) Prynu rhywbeth bach o'r siop a rhoi'r newid yn y bocs casglu? c) Rhoi'r cwbl yn y bocs casglu - dwyt ti ddim angen bwyd nawr ta beth?

3. Mae'r athrawes Ysgol Sul yn dweud ei bod hi'n amser gweddïo. Wyt ti'n: a) Ceisio'n galed i wrando ar Dduw a siarad ag ef? b) Meddwl am lawer o bethau eraill yn ystod y weddi? c) Cwyno a mwmblan fel bod neb arall yn gallu canolbwyntio?

Ydyn ni'n gwneud y dewisiadau gorau bob amser? Cyfeiriwch at rai o'r sefyllfaoedd uchod a thrafod y gwahaniaeth rhwng bod yn hunanol a gwneud aberth dros eraill. Beth fyddai'n plesio Duw? Heddiw, rydym yn trafod gwneud yr hyn sy'n plesio Duw – dyma ystyr geiriau nesaf Gweddi'r Arglwydd - 'Gwneler dy ewyllys.'

Amser Beibl -

Iesu'n gweddïo (Luc 22: 39-46)

Bydd angen y llinell amser arnoch.

❖ Gofynnwch i'r plant i ddod o hyd i bobl ar y llinell amser oedd wedi penderfynu gwranddo ar Dduw a bod yn ufudd iddo - dyma bobl a oedd yn ceisio gwneud ewyllys Duw (e.e. Jona, Abraham, Moses, Samuel, Dafydd, Daniel, Mair a Joseff, Iesu, y disgyblion, Paul.). Ydy'r plant yn cofio sut ufuddhaodd y bobl hyn? Ydyn nhw'n cofio rhai pobl nad oeddent yn ufudd? (e.e. Adda ac Efa, Jona). Ond, roedd hyd yn oed y bobl rydym yn eu cofio am fod yn ufudd i Dduw wedi bod yn anufudd hefyd;

❖ Heddiw rydym am weld sut y bu'n rhaid i Iesu ddewis gwneud ewyllys Duw;

❖ Darllenwch hanes Iesu'n gweddïo yng ngardd Gethsemane, Luc 22:39-46. Neu, cewch hyd i'r hanes hwn ym 'Meibl Lliw'r Plant', tudalen 266. Os ydych yn darllen o'r Beibl esboniwch ystyr y cymal 'y cwpan hwn' yn adnod 42. Nid oedd gan Iesu gwpan yn llythrennol, ond mae'n cyfeirio at y dioddefaint y gwyddai oedd o'i flaen. Mae Iesu'n gofyn a yw'n bosibl iddo beidio â mynd i'r groes i farw;

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Sut yn eich tyb chi oedd Iesu'n teimlo yn yr ardd? Beth sy'n eich synnu am yr hanes hwn? Beth benderfynodd Iesu ei wneud?

❖ Tynnwch sylw'r plant at y cymorth gweledol ac eglurwch fod Iesu'n gorfod penderfynu bod yn ufudd i Dduw. Pam fu'n rhaid i Iesu farw ar y groes? *Fel ein bod yn gallu cael maddeuant am ein pechodau a chael bywyd newydd gan Dduw.* Ydych chi'n credu ei bod hi'n hawdd i Iesu wneud ewyllys Duw?

Ydych chi'n cofio achlysur pan gawsoch chi hi'n anodd gwneud ewyllys Duw? Sut ydym yn gwybod beth yw ewyllys Duw? Ydy hi'n bwysig ein bod yn gwneud yr hyn sy'n plesio Duw?



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

❖ Efallai yr hoffech basio'r groes o amgylch y plant gyda phob un yn dweud gweddi o ddiolch i Iesu am fod yn barod i farw ar y groes. Yna, gweddiwch dros y plant a chi eich hun, am gymorth i wneud yr hyn sy'n plesio Duw yn enwedig pan mae'n anodd.

Crefft

❖ Creu dewisydd – gweler Atodiad 7.

Uned 5:

'Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol'

Cymorth gweledol - torth o fara, neu lun bara, gyda'r geiriau 'Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol' wedi'i hysgrifennu ar ddarn o gerdyn ei wrth ei hymyl.

Cyflwyniad

Bydd angen offer ar gyfer y gêm a darn mawr o bapur gyda dwy golofn wedi'u labeli 'ANGEN', 'DYMUNO'.

Gêm frechdan.

Rhannwch y grŵp i 2/3 tîm yn dibynnu sawl aelod sydd yn y grŵp. Nod y gêm yw bod pob aelod o'r tîm yn cymryd eu tro i wneud brechdan a'i bwyta - y tîm sydd yn gorffen gyntaf sydd yn ennill. Bydd angen tafellau o fara, margarin/menyn, jam/mêl, cylllyll a phlatiau. Gellir torri'r bara'n chwarteri i'r plant iau fel eu bod ond yn defnyddio un chwarter, neu'n hanner ar gyfer y plant hwn fel eu bod yn defnyddio hanner yr un. Mae'r plant yn cymryd tro i redeg at y bwrdd lle mae'r cynhwysion, ac i daenu'r margarin a'r jam a bwyta'r frechdan. Ar ôl gorffen bwyta caiff yr aelod nesaf ddod ymlaen i gael tro, ac yn y blaen nes bod pob aelod o'r tîm wedi bwyta. Cofiwch fod yn ymwybodol o unrhyw alergedd ac o lanweithdra.

Ar ddiwedd y gêm, dangoswch y cymorth gweledol, gyda'r esboniad canlynol: Dysgodd Iesu ei ffrindiau i ofyn am fara pan fyddent yn siarad â Duw. Wrth ofyn i Dduw am fara, rydym

yn gofyn am y pethau y mae'n rhaid inni eu cael i fyw o ddydd i ddydd. Oes gan y plant syniadau am bethau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw? Ysgrifennwch eu hatebion ar y papur yn y golofn briodol. Efallai y bydd rhaid eu helpu i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n angenrheidiol a phethau sy'n ddymunol.

Amser Beibl -

Hanes Duw'n darparu yn yr anialwch (Exodus 16:1-35)

❖ Darllenwch yr hanes o'r Beibl neu o Feibl plant addas;

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: O ba wlad oedd yr Israeliaid wedi ffoi? Pwy oedd yr arweinydd? Beth oedd achos eu cwynion? Beth ddanfonodd Duw bob bore a nos? Beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn casglu gormod o fanna? Tebyg i beth oedd manna? A gafodd pawb yr un faint? A ydyn ni angen yr un pethau â phawb arall? Beth mae'r hanes hwn yn ei ddysgu i ni am Dduw?

❖ Tynnwch sylw'r plant at y cymorth gweledol. Ydy Iesu'n dweud wrthym am ofyn i Dduw am y pethau sydd eu hangen arnom neu am y pethau rydyn ni'n dymuno eu cael?

❖ Gorffennwch drwy ddiolch i Dduw am yr holl bethau da yr ydym yn eu mwynhau a gweddio dros y rhai sydd mewn angen.

Gweithgaredd

❖ Codi arian at achos da

Trafodwch pwy yw'r anghenus yn lleol, yn genedlaethol, yn fyd-eang. Cyfeiriwch at achosion sy'n gyfarwydd i'r plant. Pam fod hi'n bwysig i ni ofalu am bobl anghenus? Beth am roi punt i bob plentyn gyda'r sialens i'w ddefnyddio i godi mwy o arian dros yr wythnos nesaf? Syniadau: prynu cynhwysion i wneud cacennau i'w gwerthu, prynu potel o ddiod a gwerthu diodydd ar ôl yr Ysgol Sul, prynu pecyn o hadau a gwerthu'r planhigion bach. Byddai'n



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

syniad da danfon nodyn adref gyda'r plant i esbonio'r sialens ac i ofyn i'r rhieni am eu cymorth.

❖ **Cystadleuaeth gwneud brechdanau**

Bydd angen bara/rholiau ac amrywiaeth o lenwadau. Rhowch wobwr i'r frechdan fwyaf blasus/liwgar/gwreiddiol.

Uned 6:

'Maddau inni ein troseddau, fel ydym yn maddau i eraill'

Cymorth gweledol: Ilun y fowlen o ddŵr o Atodiad 3 neu groes a phowlen o ddŵr, gyda'r geiriau 'Maddau ein troseddau, fel yr ydym ni'n maddau i eraill,' ar ddarn o gerdyn wrth ei ymyl.

Cyflwyniad

Gêm falwnau.

Bydd angen tua 10 balŵn a thâp masgio.

Defnyddiwch y tâp i osod dwy linell gyfochrog ar y llawr a thua metr rhyngddynt. Rhannwch y plant yn ddau dîm, gyda phob tîm yn eistedd ar linell yn wynebu ei gilydd.

Esboniwch mai nod y gêm yw cael cymaint o'r balwnau ag sy'n bosibl dros bennau'r tîm arall. Mae'n rhaid eistedd trwy'r amser - does neb yn cael codi i gyffwrdd â'r balwnau. Chwaraewch am funud ar y tro cyn stopio i gyfri faint o falwnau sydd ar bob ochr. Y tîm sydd â'r nifer lleiaf o falwnau tu ôl iddynt sy'n ennill y rownd. Chwaraewch sawl rownd a rhowch wobwr fechan i'r tîm buddugol.

Amser Beibl -

Iachau dyn wedi'i barlysu

(Luc 2:1-12)

Bydd angen amrywiaeth o offer ymolchi/glanhau, e.e. past dannedd, sebon, hylif golchi llestri, siampu, cŵyr esgidiau, tywel.

❖ Darllenwch yr hanes yn Luc 2:1-12 neu o Feibl Plant addas;

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Beth oedd yn bod ar y dyn sâl yn y stori? Beth ddywedodd Iesu wrtho? Beth ddywedodd yr 'ysgrifenyddion' wrth glywed Iesu'n dweud hyn? *Pobl grefyddol iawn oedd yr ysgrifenyddion.* Pwy sy'n cael maddau pechod, yn ôl Iesu (adnod 10)?

❖ Dangoswch yr offer glanhau i'r plant a thrafodwch eu defnydd. A fyddai'n syniad da defnyddio'r cŵyr esgidiau i geisio glanhau eich dannedd? Neu bast dannedd i lanhau eich esgidiau? Mae gan bob un bwrpas arbennig.

❖ Dangoswch y cymorth gweledol i'r plant. Darllenwch yr adnod gyda'ch gilydd. Dysgodd Iesu i'w ffrindiau ei bod hi'n bwysig i ofyn i Dduw i faddau iddynt. Pryd fyddwn ni'n gorfod gofyn am faddeuant? Mae'r Beibl yn ein dysgu bod pob person yn gwneud pethau drwg neu'n meddwl pethau drwg neu'n dweud pethau drwg, ac mae angen gofyn i Dduw am faddeuant. Pwyntiwch at y groes ac atgoffwch y plant ei bod hi'n bosibl i Dduw faddau i ninnau am ein pechodau gan fod Iesu wedi marw ar y groes;

❖ Mae Iesu'n atgoffa ei ffrindiau pa mor bwysig yw hi eu bod nhw'n barod bob amser i faddau i bobl eraill. Os yw Duw yn barod i faddau, dylai ffrindiau Duw fod yn barod i faddau hefyd. Pa mor anodd yw hi i faddau i bobl? Beth ddylen ni ei wneud os ydyn ni'n ei chael hi'n anodd maddau?

❖ Efallai yr hoffech wahodd y plant i ddod i olchi eu dwylo, ac wrth wneud hynny, i ystyried sut mae Iesu'n gallu maddau ein pechodau a'n gwneud yn lân ar y tu mewn, dim ond i ni gyffesu ein pechod wrtho a gofyn am faddeuant.

Gweithgaredd

Bydd angen siâp croes ar gerdyn trwchus neu groes bren, a darnau o bapur lliwgar. Hefyd, pensiliau, glud a siswrn.



6 - 11 oed

Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Gofynnwch i'r plant greu siâp blodyn o'r papur lliwgar a'i dorri allan. Yna, gofynnwch iddynt feddwl am yr hyn ddysgodd Iesu i'w ffrindiau am geisio maddeuant gan Dduw ac am faddau i eraill. Dylent ysgrifennu gweddi ar y blodyn. Gludwch y blodau ar y groes.

Uned 7:

'Paid â'n dwyn i brawf'

Cymorth gweledol: y llun o Atodiad 4 neu fap a chwmpawd â'r geiriau 'Paid â'n dwyn i brawf'.

Cyflwyniad

Bydd angen dau ddarn o bapur maint A4, un gyda'r gair 'GWIR' a'r llall gyda'r gair 'GAU' arnynt'. Gosodwch y ddau arwydd ar waliau'r ystafell gyferbyn â'i gilydd. Hefyd, bar o siocled a llun o gar mewn hysbyseb (neu lun o rywbeth arall drud).

Darllenwch y datganiadau canlynol i'r plant a'u gwahodd i benderfynu a yw'r datganiad yn 'wir' neu'n 'gau'. Os byddant yn dewis bod y datganiad yn wir, dylent redeg at yr arwydd 'GWIR', neu at yr arwydd 'GAU' fel arall.

1. Mae'r gair 'temtio' yn golygu ceisio gorfodi rhywun i wneud rhywbeth – fel arfer rhywbeth drwg. *GWIR.*
2. Mae hysbysebion ar y teledu yn ein temtio i brynu pethau. *GWIR.*
3. Rwy'n cael fy nhemtio i fwyta'r siocled yma. *Dangoswch y siocled. GWIR.*
4. Felly, mae'n rhaid i mi ei fwyta. *GAU.*
5. Rwy'n cael fy nhemtio i brynu'r car yma. *Dangoswch lun y car. GWIR.*
6. Felly, mae'n rhaid i mi ei brynu. *GAU.*
7. Os ydym yn cael ein temtio i wneud rhywbeth drwg, mae'n rhaid i ni ei wneud. *GAU.*

8. Mae pawb yn cael ei demtio i wneud pethau drwg weithiau. *GWIR.*

Amser Beibl - Temptiad Iesu (Mathew 4:1-11)

Bydd angen breichled WWJD neu llun o'r freichled o Atodiad 2.

❖ Darllenwch yr hanes yn Mathew 4:1-11 neu o Feibl Plant addas, e.e. Beibl Lliw y Plant;

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Pwy demtiodd Iesu? Beth demtiodd y Diafol Iesu i'w wneud? Sut atebodd Iesu? Beth yw'r 'ysgrythurau'? Sut fedrwn ni ddewis gwneud y peth iawn pan fyddwn yn cael ein temtio?

❖ Dangoswch y freichled i'r plant. Beth mae'r llythrennau hyn yn eu golygu? (**What Would Jesus Do**). Ydy'r plant wedi gweld rhywun yn gwisgo un o'r breichledi hyn o'r blaen? Mae rhai Cristnogion yn gwisgo'r breichledi i'w helpu i wneud y dewisiadau sy'n plesio Iesu. Maen nhw'n holi eu hunain 'Beth fyddai Iesu'n ei wneud yn y sefyllfa yma?' ac mae hyn yn eu helpu i beidio ag ildio i demtasiwn. Rydym yn dod i wybod beth sy'n plesio Duw wrth i ni ddarllen y Beibl, oherwydd yn y Beibl mae Duw'n dweud beth sy'n iawn, beth sy'n ei blesio, sut y dylai ei bobl fyw. Gofynnwch i'r plant i feddwl beth yn eu tyb nhw fyddai Duw am i'w bobl ei wneud/beidio ei wneud;

❖ Cyfeiriwch y plant at y cymorth gweledol. Byddwn yn wynebu dewisiadau bob dydd o'n bywydau, dyna pam mae Iesu'n ein hannog i ofyn i Dduw am ei gymorth fel ein bod yn gwneud y dewisiadau gorau.

Crefft - Llun Bugail

Bydd angen copi o Atodiad 4 ar bob plentyn, gwlan cotwm i addurno'r defaid, glud, pinnau ffelt, rhuban neu gortyn i hongian y llun.



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Wrth i'r plant lliwio'r llun, eglurwch fod Iesu wedi defnyddio'r darlun o fugail yn gofalu am ddefaid lawer gwaith. Roedd Iesu eisiau'r bobl sylweddoli gymaint yr oedd yn eu caru ac yn dymuno gofalu amdanynt - fel y mae bugail yn caru a gofalu am ei ddefaid. Roedd llawer o beryglon i ddefaid yng nghyfnod Iesu - bleiddiaid a lladron - ac er mwyn aros yn ddiogel, roedd yn rhaid i'r defaid aros yn agos at y bugail. Yn yr un modd, os ydym am fod yn ddiogel rhag cael ein temtio, mae'n rhaid i ni aros yn agos at Iesu. Beth mae hyn yn ei olygu? *Cymryd amser bob dydd i ddarllen y Beibl ac i weddio, mynd i'r Ysgol Sul ac i gapel, a siarad gyda Christnogion eraill.*

Uned 8: 'Gwared ni rhag drwg'

Cymorth gweledol: *clo ac allweddi gyda'r geiriau 'Gwared ni rhag drwg' ar ddarn o gerdyn neu'r llun o Atodiad 5.*

Cyflwyniad

Bydd angen blanced a llun o'r bedd gwag o Feibl Plant addas.

Gwahoddwch y plant i eistedd o dan y flanced. Trafodwch y pethau sy'n codi ofn arnynt. Beth sydd o gymorth i ni wynebu neu ddod dros ein hofnau? Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau i ofyn i Dduw i'w harbed rhag pethau drwg ac mae 'ofn' yn rhywbeth sy'n cael effaith drwg arnom. A yw'r plant yn gallu meddwl am bethau eraill sy'n cael effaith drwg arnynt?

Amser Beibl a Gweithgaredd - Hanesion am Dduw yn 'achub'

Bydd angen y Llinell Amser, stribedi o bapur lliwgar a styffylwr i greu cadwyn.

❖ Gofynnwch i'r plant i chwilio ar y llinell amser am bobl a gafodd eu hachub gan Dduw - Noa, Moses, Daniel, Jona (dydy llun Jona ddim ar y llinell amser), y baban Iesu, Paul. Neu, chwaraewch gêm meimio, gan wahodd gwirfoddolwr i feimio un o'r cymeriadau. Trafodwch yr amgylchiadau gwahanol a sut cafodd yr unigolion eu hachub, e.e. cafodd Noa

a'i deulu eu hachub o'r dilyw, Moses rhag cael ei ladd gan filwyr Pharo, Daniel rhag y llewod, Jona o fol y pysgodyn, y baban Iesu rhag milwyr Herod, Paul rhag yr Iddewon yn Namascus (Actau 9:25).

Cafodd y bobl yma gymorth gan Dduw i'w hachub oddi wrth anifeiliaid neu bobl eraill.

❖ Pam ydyn ni angen cael ein 'hachub'? Beth yw'r pethau drwg sy'n codi yn ein bywydau? Efallai bydd angen rhoi ychydig o syniadau i'r plant i gychwyn. Dyma rai awgrymiadau:

Pethau drwg sy'n digwydd i ni: Pobl yn gas wrthym, yn dweud celwydd amdanom, yn annheg wrthym, yn greulon wrthym. Pethau tu mewn i ni - meddyliau cas at bobl eraill, tymer wyllt, ofnau, teimlo'n unig neu'n ddigalon, neu'n flin. Pethau rydym yn eu dweud - celwyddau, rhegfeydd, geiriau cas a chreulon. Pethau rydym yn eu gwneud - bod yn greulon, yn ddiamynedd, dwyn, yn ddiog. Pethau drwg sy'n digwydd trwy'r byd - trychinebau naturiol, rhyfel, trais.

❖ Ysgrifennwch syniadau'r plant ar y stribedi a'u styffylu i greu cadwyn, gan esbonio bod y pethau hyn yn cael eu galw yn 'bechod' yn y Beibl. Mae'r Beibl yn ein dysgu bod gan bob un ohonom bechod yn ein calonau a does dim y gallwn ni ei wneud i gael gwared ohono;

❖ Beth yw'r 'drwg' mwyaf sy'n dod i ran pawb? Mae pawb yn gorfod marw. Ysgrifennwch y gair 'marw' ar stribed a'i ychwanegu i'r gadwyn; Ond, newyddion da'r Beibl yw bod Duw yn gallu cael gwared â'n pechodau, gan fod Iesu wedi marw ar y groes. Ac wrth fod Iesu wedi atgyfodi'n fyw, rydym yn gwybod bod Iesu'n gryfach na hyd yn oed marwolaeth.

Os ydym yn dweud wrth Dduw am ein pechodau a gofyn iddo am faddeuant, mae Duw'n golchi'r pechod i ffwrdd. Does dim rhaid i bobl Dduw boeni am farwolaeth chwaith, mae Iesu gyda ni drwy'r amser ac yn rhoi bywyd bythol i bawb sy'n ei garu a chredu ynddo;

❖ Ond, bob dydd, rydym angen cymorth Duw i beidio â phechu mwyach - mae'n amhosibl i ni



6 - 11 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 6

roi'r gorau i bechu heb gymorth Duw, a dyna pam ddysgodd Iesu ei ffrindiau i ofyn i Dduw am gymorth yn erbyn 'drwg.' Dysgodd Iesu i'w ffrindiau i weddïo y byddai Duw'n cael gwared â'r drwg tu mewn, a'r drwg o'u hamgylch yn y byd;

❖ Gofynnwch i'r plant eich helpu i falu'r gadwyn.

Wrth ichi wneud hyn cewch weddïo, gan gynnwys geiriau'r gadwyn, e.e. 'Diolch Dduw am faddau fy mhechod. Plîs helpa fi i beidio â bod yn gas wrth fy chwaer/dweud celwydd/bod yn ddiog/rhegi/dweud pethau cas wrth fy mrawd. Gweddïwch hefyd dros bobl sy'n byw o dan amgylchiadau anodd.

Uned 9: 'Eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant am byth'

Cymorth gweledol: *amrywiaeth o eitemau naturiol (deilen, afal wedi'i dorri'n ei hanner, darn o bren anghyffredin, gemau, ffosil, oriawr), y geiriau 'Eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant am byth' wedi'u hysgrifennu ar ddarn o gerdyn wrth eu hymyl.*

Dangoswch yr oriawr i'r plant a gofyn iddynt ddyfalu pa fath o berson a greodd yr oriawr.

Yna, treuliwch amser yn edrych ar yr eitemau naturiol a thrafod yr hyn a wyddwn am Dduw wrth edrych ar y pethau anhygoel y mae ef wedi'u creu. Esboniwch fod y weddi a ddysgodd Iesu i'w ffrindiau'n gorffen gyda geiriau o ganmoliaeth i Dduw. Mae'n debyg fod y disgyblion wedi ychwanegu'r geiriau hyn i orffen y weddi arbennig hon trwy foli Duw.

Amser Beibl - Gweledigaeth Ioan (Llyfr y Datguddiad)

Bydd angen Beibl Lliw y Plant.

Darllenwch frawddeg olaf y Weddi gyda'ch gilydd yn ofalus o'r Beibl, neu o'r cymorth gweledol. Beth yw'r 3 rheswm sy'n cael eu rhestru am ganmol Duw?

Mae gan Dduw DEYRNAS, GALLU a GOGONIANT.

TEYRNAS: atgoffwch y plant o'r hyn a ddysgwyd yn uned 3 am Iesu'n dod yn frenin ar ein bywydau. Mae'r geiriau olaf yn canmol Duw am fod yn frenin.

GALLU: wrth edrych ar y byd o'n cwmpas, rydym yn gweld 'gallu' anhygoel Duw i greu ac i gynnal ein byd.

GOGONIANT: mae'r gair 'Gogoniant' yn anodd ei esbonio. Mae Duw yn fwy anhygoel na'r peth mwyaf anhygoel y gallwn ei ddychmygu! Mae'n gwneud pethau anhygoel ac mae'n berson anhygoel.

Darllenwch ran o bennod 'Datguddiad Ioan', tudalen 308, Beibl Lliw i'r Plant.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Beth welodd Ioan yn ei freuddwyd? Sut le ydy'r nef? Pwy sy'n frenin yno? Pwy sy'n canmol Duw, y brenin, yn y nef?

Mae ffrindiau Iesu'n dechrau deall ar y ddaear pa mor anhygoel a galluog yw Duw, ac rydym yn gweld pobl eraill yn dod yn rhan o deyrnas Dduw. Yn y nef bydd pobl Dduw yn ymuno gyda'r angylion i ganmol Duw am byth wrth iddynt ddod i ddeall yn iawn pa mor anhygoel ydyw.


Crefft

Bydd angen copi o Atodiad 5 wedi'i gopïo ar gerdyn ar gyfer pob plentyn. Hefyd, cerdyn lliw aur yn gefndir i'r weddi, llawer o bethau sgleiniog i'w haddurno a rhuban i hongian y llun. Anogwch y plant i gadw'r weddi wrth ymyl eu gwelyau a'i gweddïo'n rheolaidd, gan geisio cofio ystyr y cymalau. Gorffennwch eich amser trwy ddarllen y Weddi gyda'ch gilydd.



Ein Tad

Llenwa'r goeden gydag enwau aelodau dy deulu - rho dy enw di ar y gwaelod.



Adroddodd Iesu stori i esbonio gymaint y mae Duw yn ein caru - cewch hyd iddo yn Luc 15.



Sut ydyn ni'n dod yn rhan o deulu Duw?




Pam fod enw Duw yn arbennig?

Beth ddysgodd Moses am Dduw pan welodd y berth yn llosgi, ond ddim yn cael ei difa?

Sancteiddier dy enw



Os gweli di'n dda....



Dysgodd Iesu i'w ffrindiau i ofyn i Dduw am 4 peth arbennig - fedri di eu cofio?
Mae'r cliwiau wedi'u cymysgu! Tynna luniau ymhob rhan a defnyddia'r daflen i dy helpu wrth siarad gyda Duw bob dydd.



Taflen 6 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Un noson aeth Iesu i weddio yng ngardd Gethsemane. Roedd e'n gwybod ei bod hi bron yn amser iddo farw ac roedd hyn yn ei boeni. Wrth iddo weddio, dywedodd wrth Dduw ei Dad ei fod yn fodlon gwneud beth bynnag y byddai'n gofyn iddo - er mor ofnadwy fyddai hynny.



Gwneler dy ewylllys

Ewyllys Duw dros Gymru yw bod pawb yn dod i garu Iesu Grist a chredu ynddo!!!



Ysgrifenna weddi dros dy ffrindiau a'th deulu, a phobl Cymru.

Beth am ddangos ar y map ble mae pobl yr wyt yn eu hadnabod yn byw?



Gwared ni...

rhag drwg

rhag cael fy nhemtio

Gyda pha bechodau rwyd ti angen help Duw?

Pa dentasiynau sydd angen i ti eu hosgoi?

Mae Duw yn ein helpu rhag pechu a rhag ildio i dentasiwn trwy:

Cafodd sawl person eu 'hachub' gan Dduw yn y Beibl.

Sawl enw fedri di ddod o hyd iddynt?

Y Beibl

Cristnogion eraill

Gweddï

Yr Ysbryd Glân

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| l | u | a | p | e | r | t | p | o | a |
| s | a | s | d | n | g | h | e | l | n |
| u | w | r | o | n | m | d | d | c | o |
| e | s | a | f | g | d | b | r | u | j |
| h | n | h | l | y | p | o | s | i | u |
| c | e | r | f | y | b | e | t | y | n |
| a | p | d | a | n | i | e | l | m | b |
| s | d | n | b | o | s | e | s | o | m |



Dad, ti'n anhygoell!

Mae diwedd Gweddi'r
Anglwydd yn dangos i ni
sut y dylem orffen ein
gweddiau - sef cofio beth
a wnaeth Duw a diolch
iddo!

Ti sy' bia'r deyrnas!

Diolch Dduw am fod yn Frenin arnaf i.

Ti sy' bia'r gallu!

Diolch Dduw am arwyddion dy nerth o'm hamgylch.

Ti sy' bia'r gogoniant!

Diolch Dduw dy fod ti'n fwy na phawb a phopeth arall.

Amen.

Ystyr 'Amen' ydy 'felly
mae' - 'sorted'



11 - 14 oed Iesu'r Athro Da - Y Gwynfydau - Mathew 5

Cyflwyniad i'r gyfres

Mae'r Gwynfydau yn rhan o bregeth enwog yr Arglwydd Iesu - 'Y Bregeth ar y Mynydd.' Yn y bregeth yma mae Iesu'n disgrifio cymeriad y rhai sy'n rhan o'i deyrnas (5:2-16), y bendithion y mae'r rhain yn eu derbyn, a'r berthynas ddylai aelodau o'i deyrnas gael gyda phobl eraill (5:13-16).

Mae Iesu hefyd yn disgrifio'r safonau y mae ef, Brenin y deyrnas, yn disgwyl gan aelodau ei deyrnas (5:17-7:12). Mae Duw am i'w bobl ei garu ef yn gyntaf, yn fwy nag unrhyw un arall ac unrhyw beth arall. Mae hefyd am i ni garu pobl eraill, 'ein cymdogion,' fel yr ydym yn caru ni ein hunain.

Mae'r bregeth yn gorffen gyda'r anogaeth i wneud yn siŵr ein bod yn rhan o deyrnas Dduw. Byddwn yn ystyried 3 o'r gwynfydau gyda'r bobl ifanc – sef 'gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd' (adnod 3), 'gwyn eu byd y rhai trugarog' (adnod 7) a 'gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder' (adnod 11).

Wythnos 1: Mathew 5:3

Cyflwyno'r thema

Gofynnwch i aelodau'r grŵp ddychmygu eu bod nhw'n Frenhinoedd neu'n Freninesau. Beth fydden nhw'n eu gwisgo / ei fwyta / yn gwneud / yn dweud?

Pa fath o ddinasyddion y bydden nhw'n dymuno eu cael yn aelodau o'u teyrnas? (e.e. *gonest, gweithgar, taclus, hael, hapus, goddefgar, celwyddog, diog, anniben, diflas, diamynedd?*)

Eglurwch y byddwch yn ystyried rhai o'r pethau a ddysgodd Iesu Grist i'w ffrindiau gyda'ch gilydd yn y gyfres hon. Un o'r pethau a ddysgodd Iesu oedd ei fod Ef wedi dod i'r byd i fod yn frenin ac i sefydlu teyrnas. Ond nid brenin na theyrnas arferol, neu yn yr ystyr cyffredin ydoedd.

Adrodd a deall yr hanes:

Mathew 5:1-12

Bydd angen Beiblau, y lluniau o Atodiad 6, a Mathew 5:3 wedi'i ysgrifennu'n fawr.

Darllenwch Mathew 5:1-12 gyda'r grŵp, gan egluro mai dyma'r rhan gyntaf o'r bregeth enwog

a roddodd Iesu - 'Y Bregeth ar y Mynydd'. Yn yr adnodau hyn, mae Iesu'n egluro sut fath o bobl yw ei bobl ef – pobl y bydden ni'n eu galw'n Gristnogion, neu ddilynwyr Iesu.

Dangoswch adnod 3 a'i hail-ddarllen.

1. Beth yw ystyr bod yn 'dlawd yn yr ysbryd'?

Mae rhai sy'n 'dlawd yn eu hysbryd' yn rai sydd wedi dod i ddeall eu bod yn dlawd yn ysbrydol. Hynny yw, daethant i ddeall eu bod yn bechaduriaid. Daw unigolion i'r ddealltwriaeth yma yn unig drwy waith yr Ysbryd Glân yn eu calonau.

Mae person sy'n 'dlawd yn yr ysbryd' wedi dod i ddeall:

- ❖ bod gan bob person **natur** bechadurus - *efallai bydd angen treulio amser yn trafod hyn.*
- ❖ bod angen maddeuant a thrugaredd Duw;
- ❖ mai Iesu yw'r unig un a all ddelio gyda'n pechod a hynny am ei fod wedi marw ar y groes i gymryd y gosb am ein pechodau.

Dangoswch y darlun o Atodiad 6 i egluro bod marwolaeth Iesu wedi pontio'r gagendor rhwng bechaduriaid a Duw.



11 - 14 oed

Iesu'r Athro Da - Mathew 5

2. Sut un yw'r person sy'n dlawd yn ysbrydol?

Dangoswch y lluniau o Atodiad 6 yn eu tro wrth roi'r enghreifftiau canlynol.

Meddylwch am y 3 pherson yn yr hanes canlynol. Pa un sy'n dlawd ei h/ysbryd?

Person 1: Mae Person 1 yn mynd i'r capel ar fore Sul ac yn cerdded yn syth i flaen y capel er mwyn eistedd yn y sedd flaen lle gall pawb ei weld. Ar ddiwedd y gwasanaeth mae'n mynd draw at y gweinidog ac yn siarad (yn uchel, er mwyn i bawb arall glywed) am yr holl bethau caredig a wnaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Person 2: Mae Person 2 yn llithro i mewn i'r capel yn hwyr ac yn gadael yn gynnar er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'n gorfod siarad ag unrhyw un. Nid yw'n siŵr pam ei bod yn dod i'r capel, oherwydd mae'n treulio ei holl amser yn poeni ynglwn â beth mae pobl eraill yn ei feddwl amdani. Nid yw'n canu yn ystod yr emynau gan nad yw'n credu bod ganddi lais digon da, ac nid yw'n gwirfoddoli i helpu yn y capel gan nad yw'n credu bod ganddi unrhyw beth i'w gynnig.

Person 3: Mae Person 3 yn nerfus wrth i'r gwasanaeth ddechrau. Mae hi wedi cael wythnos ddiflas. Yn ystod yr emyn cyntaf, mae hi'n dechrau meddwl am y geiriau. Wrth i'r gweinidog weddio mae'n ceisio dilyn ei eiriau. Mae hi'n teimlo bod y bregeth wedi ei chyfeirio ati hi - mae'n teimlo bod Duw yn siarad gyda hi. Mae'n sylweddoli mai'r unig beth sydd angen arni yw troi at Iesu a gofyn am faddeuant. Mae'n dechrau sylweddoli bod Iesu wedi marw ar y groes drosti, ei fod yn barod i faddau ei phechodau a dod i'w chalon i fyw. Mae'n plygu ei phen i weddio. Mae'n dweud wrth Iesu beth sydd yn ei chalon ac mae'n gofyn am faddeuant.

❖ Gofynnwch i'r bobl ifanc pa un sy'n ymddangos yn 'dlawd eu hysbryd'?

Mae'n debyg mai'r trydydd person yw'r un sy'n 'dlawd ei hysbryd' gan ei bod wedi sylweddoli ei bod angen maddeuant gan Dduw.

3. Beth yw ystyr 'eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd'?

Atgoffwch y grŵp am y gweithgaredd o ddechrau'r sesiwn - bod yn frenin/dinesydd. Trafodwch y syniad o fod yn perthyn i'r 'Deyrnas Unedig' (gan ystyried eich barn wleidyddol personol). Mae pob person yn perthyn i genedl neu deyrnas o ran genedigaeth ac mae gan bob cenedl/deyrnas/gwlad bennaeth.

Yn y sgwrs hon, mae Iesu'n dysgu ei ffrindiau fod pobl sy'n 'dlawd yn yr ysbryd' yn dod yn rhan o'i deyrnas Ef ac mai Ef yw brenin y deyrnas. Siaradodd Iesu lawer am ei 'deyrnas' a theyrnas Duw ei Dad. Doedd e ddim yn cyfeirio at deyrnas weledol ar y ddaear. Yn hytrach, mae Iesu'n dod yn frenin ar galonnau a bywydau ei bobl tra eu bod yn byw ar y ddaear. Ac, ar ôl marwolaeth, mae'r rheiny sy'n 'dlawd yn yr ysbryd' yn cael eu derbyn i deyrnas Dduw yn y nef - y lle perffaith a hardd, lle mae Duw'n teyrnasu.

❖ **Bendithion bod yn rhan o deyrnas Dduw**

Mae bod yn rhan o deyrnas Dduw yn dod â llawer o fendithion i'r Cristion. Hynny yw, mae Duw am roi nifer o bethau da iddynt.

Darllenwch yr adnodau isod i ddarganfod beth yw rhai o'r bendithion, neu'r pethau da y mae Duw yn eu rhoi i ddinasyddion ei deyrnas:

- ❖ Ioan 3:16 (Bywyd tragwyddol)
- ❖ Ioan 15:9-11 (Mae Iesu'n sôn am y llawenydd sy'n cael ei gynnig ynddo)
- ❖ Ioan 14:1-4 (Mae Iesu am sôn am gartref ei Dad, hynny yw, y nefoedd. Mae Iesu'n rhoi gobaith y nefoedd i'w bobl.)
- ❖ Ioan 14:26 (yr Ysbryd Glân o'n mewn, i'n dysgu a'n harwain - gweler Ioan 15:13).



11 - 14 oed

Iesu'r Athro Da - Mathew 5

Mae'r bendithion yn dod ag hapusrwydd i'n bywydau. Hyd yn oed pan ddaw amseroedd anodd a chaled mae bendithion Duw yn rhoi gobaith i ni a hapusrwydd yn ein calonnau.

Gweddi

Gweddiwch gyda'ch gilydd y bydd Duw yn eich helpu i gofio eich bod yn bechaduriaid sy'n cael maddeuant oherwydd gwaith Iesu Grist ar y groes.

Rhowch ddiolch am y ffaith ei bod hi'n bosib cael perthynas gyda Duw, ac am yr holl fendithion y mae Duw yn eu rhoi i'w bobl.

Wythnos 2: Mathew 5:7

Cyflwyniad

Wrth astudio Mathew 5:7, dysgwch fod Iesu am i'w ddilynwyr fod yn drugarog wrth eraill, fel ag y bu ef yn drugarog wrthyn nhw - gan fod Iesu wedi maddau iddynt eu pechodau, dylent hwythau fod yn bobl sy'n barod bob amser i faddau i eraill.

Cyflwyno'r Thema

Naill ai,

Gyda'r grŵp, rhannwch y peth gwaethaf a wnaethoch yn yr ysgol a'r gosb a gawsoch.

Neu,

Cwis: Dysgu Trugarhau...(Fe fydd angen gwobr ar gyfer y cwis yma.)

Rhannwch i ddau grŵp. **Nid enillwyr y cwis sy'n ennill y wobr, ond y tîm sy'n colli !**

Tîm 1 : Pa wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf yn y byd ? (Tsieina)

Tîm 2 : Ym mha flwyddyn y daeth yr Ail Ryfel Byd i ben? (1945)

Tîm 1 : Pwy yw Prif Weinidog presennol Lloegr? (David Cameron.)

Tîm 2: Beth yw Prif Ddinas yr Almaen? (Berlin)

Tîm 1: Ym mha lyfr yn y Beibl y darllenwn am hanes Abraham? (Genesis)

Tîm 2: Ym mha lyfr yn y Beibl y darllenwn am hanes Moses? (Exodus)

Cwestiwn ychwanegol mewn achos o ganlyniad cyfartal: Faint o fagiau te sy'n cael eu hyfed yn y Deyrnas Unedig yn flynyddol ? (Y tîm sydd agosaf at 120 miliwn sy'n ennill.)

Rhowch y wobr i'r tîm sy'n colli'r cwis, gan egluro eich bod eisiau dangos trugaredd!

Sut mae'r tîm buddugol yn ymateb? Beth am y tîm sy'n derbyn y wobr?

Er mai'r tîm buddugol sy'n haeddu'r wobr, nid nhw gafodd y wobr. Oedd hyn yn deg?

Gofynnwch i'r grŵp am enghreifftiau o achosion pan welson nhw rywun yn dangos trugaredd, neu achlysur pan fethodd rhywun â dangos trugaredd. Heddiw, byddwn yn ystyried yr hyn a ddysgodd Iesu am fod yn drugarog.

Adrodd a deall yr hanes

Bydd angen Beiblau, adnod 7 wedi'i hysgrifennu'n fawr, y llun 'Return of the Prodigal Son' gan Rembrandt: http://en.wikipedia.org/File:Rembrandt_Harmensz._van_Rijn_125.jpg

❖ Darllenwch Mathew 5:7.

Dyma'r pumed gwynfyd y mae Iesu'n ei restru fel rhan o'i bregeth ar y mynydd. Yn y pumed gwynfyd mae Iesu'n dysgu pwysigrwydd bod yn drugarog wrth eraill. Mae 'bod yn drugarog' yn cael llawer o sylw gan Iesu a'r gwŷr eraill a ysgrifennodd y Testament Newydd.



11 - 14 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 5

❖ Darllenwch Luc 10:25-42.

Gofynnwch i'r grŵp:

❖ Ydych chi'n teimlo bod y mab yn deg gyda'i dad?

❖ Dychmygwch mai chi yw'r tad. Beth fyddech chi wedi ei ddweud wrth y mab pan ddaeth yn ôl?

❖ Dychmygwch mai chi yw'r brawd hynaf yn yr hanes. Beth fyddech chi wedi ei ddweud wrth y brawd ieuengaf pan ddaeth yn ôl?

❖ Dangoswch lun 'Return of the Prodigal Son'. Ydy'r llun yn dangos rhywbeth i ni am gymeriad y tad?

Adroddodd Iesu'r hanes hwn i ddysgu pethau pwysig am Dduw, ei Dad. Mae Duw yn debyg i'r tad yn yr hanes - yn barod i faddau ac i dderbyn pobl edifar yn ôl.

Dangos Trugaredd i eraill

Mae'n gallu bod yn anodd iawn trugarhau wrth rai sy'n gwneud pethau drwg iawn yn ein herbyn. Wrth natur, byddwn yn ceisio talu'r pwyth yn ôl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ond, mae Iesu am i'w bobl fyw'n wahanol. Y rheswm am hyn yw eu bod wedi cael maddeuant a thrugaredd gan Dduw, ac maen nhw'n sylweddoli gymaint y mae wedi'i gostio i Iesu - roedd Iesu heb bechod, ond yn barod i farw drosom er mwyn i ninnau allu dod i berthynas â Duw. Mae'n rhaid i Gristnogion efelychu ei faddeuant a'i drugaredd. Mae'n anodd ond mae'n holl bwysig!

Oes yna rywun y mae angen i chi drugarhau wrtho(i)? Trafodwch sefyllfaoedd gyda'r grŵp; sefyllfaoedd y mae hi'n anodd dangos trugaredd. Sut mae gwneud y peth iawn pan mae'n anodd? Atgoffwch y bobl ifanc bod yr Ysbryd Glân yn ein galluogi i fod yn ufudd i Iesu, ond mae'n rhaid inni ofyn am ei gymorth trwy weddio.

Gweddïau

❖ Rhowch ddiolch i Dduw am fod yn barod i faddau.

❖ Gweddïwch dros eraill sydd, hyd yma, heb dderbyn maddeuant Duw.

❖ Gofynnwch i Dduw eich helpu i faddau i eraill fel ag y maddeuodd Iesu i ninnau.

Gweithgaredd Ychwanegol

Beth am greu dyddiadur gweddi sy'n cynnwys y gwahanol bethau y mae Duw wedi eu rhoi ar eich calon. Efallai bydd y grŵp am wneud rhestr o bobl y maen nhw am eu gweld yn dod i adnabod Iesu. Cymerwch eich amser i'w haddurno. (Bydd angen papur lliw a phensiliau lliw.)

Wythnos 3: Mathew 5:10-12

Cyflwyniad

Mae'r olaf o'r gwynfydau yn ein rhybuddio sut y bydd dilynwyr Iesu yn cael eu trin a sut y dylai'r Cristion ymateb. Mae gan y wers ddwy ran - mae'n ein dysgu nid yn unig i ddisgwyl erledigaeth, ond hefyd y pwysigrwydd o fod yn llawen drwy'r profiad. Fe gafodd y proffwydi eu herlid fel Iesu ei hun, ac felly mae'n debygol iawn y bydd dilynwyr Iesu'n cael eu herlid hefyd. Ond mae gan Iesu eiriau o gysur ac anogaeth - os caiff unrhyw un eu herlid wrth ledaenu neges yr efengyl, cânt lawenhau gan ddisgwyl gwobr yn y nefoedd am wneud y gwaith!

Cyflwyno'r Thema

Naill ai,

Gêm: Sibrydion Tsieineidd

Gosodwch y grŵp mewn cylch o amgylch yr ystafell. Yna, fel arweinydd y grŵp, sibrydwch frawddeg o stori Feiblaidd i glust aelod o'r grŵp. Yna, mae'n rhaid i'r person hwnnw ei hail-adrodd i'r person nesaf, ac yn y blaen, nes i'r person olaf glywed y frawddeg. Mae'n rhaid i'r aelod



11 - 14 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 5

olaf adrodd y frawddeg yn uchel er mwyn i'r grŵp weld a ydy'r frawddeg wedi newid wrth fynd o berson i berson.

Neu,

Cwis: Gwir neu Gau

Rhannwch y grŵp yn ddau dîm.

Tîm 1: Mae 80 llyfr yn y Beibl. Gwir neu gau? (*Gau. 66 llyfr*)

Tîm 2: Mae stori Iesu'n cael ei adrodd yn llyfr Genesis. Gwir neu gau? (*Gau. Yn yr Efengylau yn y Testament Newydd*).

Tîm 1: Roedd yna 10 pla yn yr Aifft. Gwir neu gau? (*Gwir.*)

Tîm 2: Cafodd yr Iesu ei fradychu am 25 darn o arian. Gwir neu gau? (*Gau - 30.*)

Tîm 1: Roedd Ioan Fedyddiwr yn frawd i Iesu. Gwir neu gau? (*Gau - Cefnder*)

Tîm 2: Fe aeth Jona ar ei orymdaith broffwydol i Darsis? Gwir neu gau? (*Gwir – cyn iddo fynd i Ninefe!*)

Adrodd a Deall yr Hanes

Bydd angen Beiblau ac adnodau 10-12 wedi'u hysgrifennu'n fawr.

Eglurwch fod Iesu wedi dysgu y dylai ei ddilynwyr fyw bywydau gwahanol i bobl eraill. Ef yw brenin eu bywydau, maent eisiau byw i'w blesio. Ers y dyddiau cynharaf, mae hyn wedi golygu bod Cristnogion, weithiau, wedi cael amser caled oherwydd eu ffydd yn Iesu Grist. Yn y blynyddoedd cynnar ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r nefoedd, cafodd y Cristnogion eu herlid gan athrawon y Gyfraith Iddewig a'r Rhufeiniaid. Cawsant eu carcharu, eu poenydio a'u lladd, am eu bod yn ddilynwyr i Iesu Grist. Hyd yn oed heddiw, mae Cristnogion mewn sawl gwlad dramor yn cael eu herlid - yn colli swyddi, yn cael eu carcharu a'u poenydio, neu eu cam-drin oherwydd eu bod yn caru Iesu.

Darllenwch Mathew 5:10-12.

Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau bychain neu barau, a chyflwyno'r cwestiynau isod a Beiblau. Os hoffech, gallwch ofyn i wahanol grwpiau ateb gwahanol gwestiynau.

❖ Beth, yn ôl Iesu, sy'n dod i ran y rhai sy'n cael eu herlid yn adnod 10?

❖ Pa fath o bethau drwg fydd yn digwydd i ddilynwyr Iesu yn adnod 11?

❖ Sut, yn ôl adnod 12, ddylai bobl Dduw ymateb?

❖ Sut all y Cristion fod yn llawen os ydyw'n cael ei erlid? Adnod 19.

❖ Pwy arall sydd wedi wynebu erledigaeth? Adnod 12.

Treuliwch amser yn trafod yr atebion. Wrth drafod ateb 4, gosodwch y saeth gyntaf o flaen y grŵp, yn pwyntio i'r dde, hynny yw, ymlaen. Mae Iesu'n annog ei ddilynwyr i edrych **ymlaen** at y nefoedd pan fyddant yn wynebu erledigaeth. Os byddant yn cofio ai dros dro ydy bywyd ar y ddaear a bod cartref yn y nefoedd yn disgwyl y rhai sy'n caru Iesu, bydd hi'n haws delio gyda'r boen a'r problemau yn y byd hwn.

Gosodwch yr ail saeth yn pwyntio i'r chwith. Mae Iesu'n atgoffa ei bobl bod pobl eraill wedi dioddef am eu bod yn caru Duw hefyd – y proffwydi. Mae'n annog ei ddilynwyr i edrych **yn ôl**, ac i gofio beth a ddigwyddodd o'r blaen.

Darllenwch Hebreaid 11:32-40 i'r grŵp - mewn modd dramatig.

Pam fod y proffwydi'n fodlon dioddef fel hyn?

❖ Roeddent yn gwbl argyhoeddedig o bwysigrwydd y neges oedd ganddynt;



11 - 14 oed Iesu'r Athro Da - Mathew 5

❖ Roeddent yn gwybod mai bod yn ufudd i Dduw oedd y peth pwysicaf oll.

Cymhwys

Efallai nad ydych wedi cael profiad o'r erledigaeth y mae'r Iesu yn sôn amdano neu sy'n cael ei gofnodi ym mhennod 11 o'r Hebreaid. Ond, efallai eich bod wedi wynebu gwawd gan ffrindiau yn yr ysgol neu gan eich teulu am fod yn Gristion neu am fynd i Ysgol Sul neu Glwb Ieuencid. Sut mae eich ffrindiau yn yr ysgol yn ymateb i chi fel Cristion?

Anogwch y bobl ifanc i gofio cyngor Iesu - edrych ymlaen a chofio bod Iesu'n addo lle yn y nefoedd i'w bobl, edrych yn ôl a chofio pam fod y proffwydi'n fodlon dioddef. Rydym yn gwybod mai'r neges am Iesu yn dod i'r byd i farw drosom yw'r neges bwysicaf erioed a bod Duw'n addo pethau da i'r rhai sy'n ceisio bod yn ufudd iddo.

Gweithgaredd Ychwanegol

Edrychwch ar safle we 'Open Doors' (www.opendoorsuk.org <<http://www.opendoorsuk.org>>) am hanesion bobl heddiw sy'n cael eu herlid am eu bod yn ddilynwyr Iesu. Treuliwch amser yn gweddïo dros y bobl a'u sefyllfaoedd. Efallai bydd rhai aelodau o'r grŵp yn adnabod pobl sy'n gwneud gwaith Duw ar draws y byd neu yng Nghymru: treuliwch amser yn gweddïo drostynt.

Cewch hyd i hanesion yn yr adran 'adnoddau.' Hefyd, mae cyflwyniad aml-gyfrwng addas i'w gael.


Gweddi

❖ Gweddiwch dros y bobl / wlad rydych newydd glywed amdanynt/amdani ar wefan 'Open Doors';

❖ Diolchwch am y rhyddid sydd gennym i addoli, i ddarllen y Beibl ac i gyfarfod â Christnogion eraill yn ein gwlad;



Atodiad 1 Iesu'r Athro Da - Mathew 6





Deled dy deyrnas







Cyfarwyddiadau i greu boced gweddïau

- Bydd angen plât papur mawr a hanner plât ar gyfer pob plentyn, hefyd map o'r byd, glud, siswrn, pinnau ffelt, darnau o gerdyn/papur coch
- Gludwch y map ar yr hanner plât a styffylu'r hanner ar ben y plât cyfan, i greu 'boced.'
- Cynorthwywch y plant i ysgrifennu 'Deled dy deyrnas' ar ben y plât cyfan.
- Trafodwch anghenion pobl y byd ac anogwch y plant i ysgrifennu gweddïau ar y papurau coch sy'n eu cynnwys.
- Anogwch y plant i gadw'r gweddïau yn y boced ac i'w ddarllen bob dydd. Rhowch bapurau plaen iddynt hefyd, a'u wahodd i ysgrifennu ychwaneg o weddïau yn ystod yr wythnos.






Atodiad 3
Iesu'r Athro Da - Mathew 6





Atodiad 4
Iesu'r Athro Da - Mathew 6





Atodiad 5 Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw;

deled dy deyrnas;

gwneled dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.

Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;

a maddau inni ein troseddau,

fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a
droseddodd yn ein herbyn;

a phaid â'n dwyn i brawf,

ond gwared ni rhag yr Ūn drwg.'


Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,

A'r gallu, a'r gogoniant,

Am byth

Amen

Gwared ni rhag drwg







Atodiad 6
Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Duw








pechod

Pobl





Creu Dewisydd



Rho lliwiau ar y haenen blaenaf, rhifau ar y trionglau o dan, a negeseuon ar y haenen gwaelod - a dyna til



Gwasanaeth Teuluol Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Gweddi'r Arglwydd

Detholiad o adnoddau i gynnal gwasanaeth ar thema Gweddi'r Arglwydd

Darlleniadau

Dysgeidiaeth ar weddi -

Y Bregeth ar y Mynydd - Mathew 6

- Beibl Bach i Blant - tud 392

Iesu'n dysgu sut i weddio

Emynau a Chaneuon:

Adeg y mileniwm fe aeth geiriau'r weddi i frig y siartiau pop gyda chân Cliff Richard ar alaw *Auld Lan Syne*. Dyma eiriau Cymraeg i'r alaw honno - mwynhewch!:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nef
Sancteiddier dy enw di
Dy deyrnas doed, d'ewyllys gwnaed
Ar y ddaer fel yn y nef.
Rho i ni fara i fyw bob dydd
a maddau'r drwg wnawn ni
Fel y gwnawn ninnau faddau'r rhai
Sy'n gwneud drwg i'n herbyn ni.
A phaid â'n dwyn ni i amser prawf
Ond gwared ni rhag drwg
Canys eiddot ti yw'r deyrnas
Y nerth a'r gogoniant. (X2)

Boed i'r holl bobl ddweud Amen
Ym mhob un llwyth a gwla.
Boed i pob calon lawenhau
Wrth i'r Deyrnas agosau.
Boed i obeithion a breuddwyd pawb
Gael lle i dyfu'n gryf
Boed i'r holl fyd
seinio mewn un llais
Boed i'r bobl ddweud Amen (X2)

Amen, Amen, Amen, Amen (X4)

Sgwrs deuluol - Gweddi'r Arglwydd mewn lliw

Defnyddiwch ganhwylau lliw neu rubanau neu ddefnydd tebyg i sidan i gynrychioli pob cymal o'r weddi a chwaraewch gerddoriaeth dawel yn y cefndir. Yna wrth i chi ddarllen y weddi gan gynnu'r gannwyll neu arddangos y defnydd, esboniwch ystyr y lliwiau:

'Ein Tad' – *gwyn* – er mwyn dangos mai goleuni yw Duw a byddai'r byd yn ddu iawn hebdo.

'Yn y Nefoedd' - *glas* - i'n hatgoffa o liw'r nefoedd las uwch ein pen a bod Duw yn edrych arnom bob amser.

'Sancteiddier dy Enw' – *gwyrdd* – mae rhai coed yn wyrdd drwy'r flwyddyn, sef coed bythwyrdd. Mae gwyrdd felly yn lliw sy'n para. Mae enw Duw'n para am byth. Rhaid cadw ei enw'n sanctaidd.

'Deled dy Deyrnas' – *porffor* – lliw brenhinol. Mae Duw eisiau bod yn frenin arnom ninnau.

'Gwneler dy ewyllys ar y ddaear fel yn y nef' - *brown* - lliw'r ddaear. Duw sy'n gwybod beth sydd orau i'n daear, felly gweddiwn am ei ewyllys Ef.

'Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol' - *melyn* – i gynrychioli grawn. Mae'n bwysig ein bod yn gofyn am fara i'n cynnal.

'Maddau inni ein troseddau fel yr wm ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd i'n herbyn' - *lliw arian* - mae'r hen gyfieithiad yn sôn am 'ddyledion', sef dyledion yn erbyn Duw a'n cyd-ddyn. Mae'r papur arian yn ein hatgoffa o'r dyledion hynny.

'A phaid â'n dwyn i brawf' - *du* - i gynrychioli'r pethau drwg a fyddwn yn eu gwneud os ydym yn ildio i demtasiwn/brawf.

'Ond gwared ni rhag yr Un drwg' – *coch* – i gynrychioli gwaed Iesu Grist a fu farw ar y groes er mwyn ein gwared ni rhag drwg os credwn ynddo.

'Canys eiddot Ti yw'r deyrnas a'r nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd' – *aur neu oren* – lliw machlud haul a fflamau tân – i gynrychioli gogoniant Duw.

Esbonio'r Weddi - defnyddiwch y llyfr **Gweddi'r Arglwydd i Blant**, er mwyn mynd trwy'r weddi fesul cymal, gan esbonio pob cymal i'r plant.



Gwasanaeth Teuluol Iesu'r Athro Da - Mathew 6

GWEDDI'R ARGLWYDD - sgets

1. 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd.'
2. Ie?
 1. Hei, paid â thorri ar draws. Rydw i'n gweddïo.
 2. Ond fe alwest ti arna i.
Fe ddywedaist, 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd.'
Wel, dyma fi, beth sy'n dy boeni di?
1. Ond, 'doeddwn i ddim yn meddwl 'galw' arnat Ti.
Dim ond dweud 'Gweddi'r Arglwydd' yn ôl fy arfer
oeddwn i. Dwi'n gwneud hynny bob dydd. Rwy'n teimlo
wedyn fy mod wedi gwneud fy rhan.
2. Olreit ta, ymlaen â thi.
 1. 'Sancteiddier dy enw'.
 2. Aros am funud. Beth mae hynny'n ei olygu?
 1. Beth?
 2. 'Sancteiddier dy enw'?
 1. Wel, mae'n golygu, ym, y!, y!, y!, wel! O ie, mae'n
golygu, y!, y!, wel! Dwi ddim y siŵr iawn. Beth mae o'n
ei olygu ta?
 2. Mae o yn golygu parchu, anrhydeddu, a
gogoneddu fy enw I.
 1. O ia, mae hynny'n gwneud synnwyr. Ond
doeddwn i ddim wedi meddwl rhyw lawer am ei ystyr
o'r blaen.
'Deled dy Deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis
yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.'
 2. Wyt ti'n meddwl hynna?
 1. Wrth gwrs fy mod i!
 2. Wel, beth wyt ti'n mynd i wneud ynglŷn â'r peth?
 1. Wel, dim byd mae'n debyg. Ond mi fydda' hi'n
reit neis petaet Ti'n gallu rheoli pob peth i lawr fan hyn
yn union fel yr wyt ti fyny fan 'na.
 2. Ydw i'n cael dy reoli di?
 1. Wel, rydw i'n mynd i'r capel.
 2. Nid dyna beth holais i. Beth am y dymer wyllt 'na
sydd gen ti? A'r genfigen? A'r ffordd rwy'ti'n gwario dy

arian i gyd arnat ti dy hun? A'r recordiau rwy'ti'n gwrandao
arnyn nhw?

1. Hei, paid â phigo ar bopeth dwi'n ei ddweud.
Dwi'n llawn cystal â phawb arall sy'n mynd i'r capel.
2. Ond roeddwn i'n meddwl dy fod ti wedi gweddïo
ar fy ewyllys i i gael ei wneud.
Mae'n rhaid i hynny ddechrau gyda phobl sy'n gweddïo
am y peth. Ac mae'n rhaid i hynny ddechrau gyda thi
dy hun.
 1. O'r gorau, mae gen i rai gwendidau, er nad ydw i
wedi meddwl rhyw lawer am y peth o'r blaen. Fe hoffwn
i gael gwared ar y pethau drwg sydd yn fy mywyd i. Fe
hoffwn i fod yn hollol rydd.
 2. Reit, rydyn ni'n dechrau symud ymlaen. Mae'n
rhaid i ni'n dau ddechrau gweithio gyda'n gilydd, ac ennill
ambell i fuddugoliaeth. Dwi'n falch ohonot ti.
 1. Gwranda rŵan, mae'n rhaid i mi symud ymlaen.
Mae'r weddi 'ma heno yn cymryd llawer mwy o amser
nag arfer.
'Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol'.
 2. Mae angen i ti dorri lawr ar y bara 'na hefyd - ti'n
pwysu 'chydig yn ormod.
 1. Hei, *hold on!* Beth ydy hyn - diwrnod pigo ar
ia? Dyna lle'r oeddwn i fan hyn yn cyflawni fy
nyletswyddau crefyddol, a dyna Ti yn torri ar fy nhraws
i, a dechrau f'atgoffa i o'm gwendidau i gyd.
 2. Mae gweddïo yn beth peryglus iawn. Mae'n bosib
i ti gael dy newid yn llwyr. Dyna ydw i am geisio ei
ddangos i ti. Fe alwaist ti arna i, a dyma fi yn dy ateb di.
Wel, ymlaen â thi.
 1. Mae arnai ofn.
 2. Ofn beth?
 1. Ofn dy ymateb Di. Rwy'n gwybod beth wyt ti'n
mynd i ddweud.
 2. Wel gad i mi glywed.
 1. Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n
dyledwyr.
 2. Beth am Dafydd?
 1. Dyna ni, mi ddywedais i on'd do? Roeddwn i'n
gwybod y bydda ti'n dod â fo i mewn i'r peth. Edrych
Arglwydd, fe fuodd o yn dweud celwyddau amdana i.



Gwasanaeth Teuluol Iesu'r Athro Da - Mathew 6

Mi aeth o ag arian oddi arna i drwy dwyll. Dydy o byth wedi talu'r ddyled yn ôl imi ac rydw i'n benderfynol o'i gael o'n ôl. A bois bach rydw i'n mynd i gael o!

2. Ond dy weddi di – beth am dy weddi di?

1. Doeddwn i ddim yn ei golygu hi.

2. Wel o leia' rwyd ti'n onest. Ond dydy teimlo'n chwerw ddim yn gwneud dim lles i neb.

1. Na, rydw i'n derbyn hynny. Ond mi fydda i'n teimlo'n well pan ga' i o'n ôl. Mae gen i gynllun grêt ar ei gyfer o. Fe wneith o ddifaru wedyn ei fod o wedi fy nghroesi i.

2. Ond fyddi di ddim yn teimlo'n well o gwbl. Dydi dial byth yn felys. Ond mi alla i newid hynny i gyd.

1. Elli di? Sut?

2. Maddeua di i Dafydd, yna mi faddeuaf i i ti. Efallai y byddi di wedi colli dy arian, ond fe fyddi di wedi bodloni dy galon.

1. Ond fedra i fyth faddau i Dafydd.

2. Wedyn, fedra i byth faddau i ti.

1. Rwyd ti'n iawn. Mae'n bwysig i mi fod yn iawn efo Ti. Dwi'n maddau i Dafydd. Dwi'n gofyn i Ti ei helpu i ddod o hyd i'r ffordd gywir.

2. Grêt, da iawn ti. Sut wyt ti'n teimlo?

1. Ddim yn ddrwg o gwbl. Eitha' da a dweud y gwir.

2. Cofia, dwyt ti ddim wedi gorffen dy weddi eto. Ymlaen â thi.

1. Olreit,
'Nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg'.

2. Iawn, ond i ti osgoi'r sefyllfaoedd hynny lle fedri di gael dy demtio.

1. Beth wyt Ti'n feddwl wrth hynny?

2. Wel, paid â gwneud gormod gyda rhai o'rh ffrindiau. Paid â chymysgu gormod gyda'r criw anghywir. Fe all hynny dy arwain di i drwbl. Paid â chael dy dwyllo. A phaid â'm defnyddio i fel dihangfa o hyd.

1. Be' wyt Ti'n feddwl?

2. Pan fyddi di mewn trwbl, yn fy nefnyddio i fel dihangfa o hyd - 'O Dad helpa fi i ddod allan o hyn, ac rydw i'n addo peidio gwneud dim byd tebyg eto.' Wyt ti'n cofio rhai o'r bargeinion hynny rwyd ti wedi eu gwneud?

1. Ydw, ac mae arna i gywilydd!

2. Pa fargen wyt ti'n ei chofio'n arbennig?

1. Rydw i'n cofio'r amser pan es i allan efo fy ffrindiau. Mi ges i ddiferyn yn ormod i'w yfed. O'n i'n reit sigledig i ddweud y gwir. Ac mi welodd y ddynes fuseslyd 'na drws nesa' fi. Roeddwn i wedi dweud wrth mam a dad 'mod i'n mynd i'r theatr, ac mi wnes i addo bryd hynny, os byddet Ti'n gwneud yn siŵr na fyddai hi'n dweud wrth mam, y byddwn i'n dod i'r capel bob dydd Sul.

2. Ddywedodd hi wrth dy fam?

1. Naddo.

2. A gadwaist ti dy addewid?

1. Naddo, ac mae'n ddrwg gen i, ond doeddwn i ddim yn disgwyl i Ti ateb.

2. Cer ymlaen.

1. 'Canys eiddot Ti yw y deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.'

2. Wyt ti'n gwybod beth fyddai'n dwyn gogoniant i mi mewn gwirionedd? Beth fyddai'n fy ngwneud i yn wirioneddol hapus?

1. Na, ond mi fyddwn i'n hoffi cael gwybod. Fe fyddwn i'n hoffi dy blesio Di. Rydw i wedi sylweddoli peth mor hyfryd yw cael bod yn ddilynwr i Ti.

2. Wel, mi rwyd ti newydd ateb fy ngweddi.

1. Beth?

2. Yr hyn sydd yn fy ngwneud i'n hapus yw gweld pobl sy'n penderfynu fy nilyn. Ar ôl i mi glirio rhai pethau allan o'r ffordd, mae'r ffordd yn glir i ni gerdded ymlaen gyda'n gilydd. 'Does wybod be fedrwn ni gyflawni rŵan.

1. Arglwydd, tyrd i ni gael gweld be fedri Di wneud efo fi.

2. Iawn, tyrd i ni gael gweld.

1.a 2. O'r gorau.